

Cyhoeddi Llyfrau Cymraeg i Blant

Adroddiad i Gyngor Llyfrau Cymru

Mairwen Jones

Cyflwynwyd i'r Panel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg)

Mehefin 2014

Cynnwys

1	Cyflwyniad a Chefndir	3
2	Dulliau a Ddefnyddiwyd	5
3	Rôl y Cyngor Llyfrau	7
4	Safbwynt y Cyhoeddwyr	11
5	Safbwynt y Llyfrwerthwyr	18
6	Safbwynt Awduron	23
7	Safbwynt Athrawon	27
8	Yr Adran Addysg a'r Fframwaith Llythrennedd	30
9	Safbwynt Llyfrgellwyr	34
10	Marchnata a Hyrwyddo Llyfrau Cymraeg	40
11	Gwerthiant Llyfrau Saesneg i Blant	45
12	Marchnata a Hyrwyddo Llyfrau Saesneg i Blant	50
13	Datblygiadau Digidol	58
14	Argymhellion	62
Atodiadau	(i) Rhestr o bobl a sefydliadau a holwyd	66
	(ii) Sampl o Holiadur	67
	(iii) Llythyr Bethan Gwanas ar ran awduron	72
	(iv) Adborth o'r Ysgolion Cynradd	75

1. Cyflwyniad a Chefnidir

1.1 Comisiynwyd yr adroddiad hwn ar gyhoeddi llyfrau Cymraeg i blant gan Banel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg) Cyngor Llyfrau Cymru. Cytunwyd y byddai'r gwaith o ymchwilio ac ysgrifennu'n digwydd rhwng Awst a Hydref 2013.

1.2 Roedd y Panel yn ymwybodol fod gwerthiant llyfrau yn gyffredinol wedi dioddef yn ystod y pedair neu bum mlynedd diweddar, yn bennaf oherwydd y sefyllfa economaidd. Yn achos llyfrau plant roedd gwerthiant llyfrau i blant bach yn parhau'n dda iawn, ond doedd y farchnad ar gyfer llyfrau i blant hŷn, yn enwedig llyfrau gwreiddiol, ddim mor gryf.

Roedd aelodau'r Panel hefyd yn awyddus i weld ble'r oedd y llyfrau plant a gefnogid gan y Grant Cyhoeddi yn ffitio i mewn i'r ddarpariaeth ehangach oedd ar gael ar gyfer plant, gan gynnwys deunydd electronaidd. Roeddynt hefyd am wybod mwy am y tueddiadau ehangach sydd i'w gweld yn dylanwadu ar gyhoeddi i blant yn Saesneg ac mewn ieithoedd eraill, gyda'r bwriad o fenthycu syniadau perthnasol ac arferion da.

Felly penderfynwyd comisiynu'r ymchwiliad hwn i weld beth oedd sefyllfa cyhoeddi llyfrau Cymraeg i blant erbyn hyn. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion, gyda'r bwriad o roi hwb i'r maes.

1.3 Cwmpawd yr ymchwiliad oedd yr holl gyhoeddi yn y Gymraeg i blant sy'n digwydd ar hyn o bryd, nid yn unig y cynnyrch sy'n cael ei noddi gan Gyngor Llyfrau Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i safbwynt nifer o 'chwaraewyr' amrywiol, gan gynnwys: y cyhoeddwr; awduron ac arlunwyr; Cangen Gomisiynu yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS); llyfrwerthwyr; ysgolion; llyfrgellwyr; asiantaethau allweddol megis Llenyddiaeth Cymru, Dechrau Da, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru; cwmnïau sy'n gweithio yn y maes digidol. Edrychwyd hefyd ar wefannau lle roedd gwybodaeth ar gael, gan gynnwys www.gwales.com, ac ystyriwyd y deunydd a'r canllawiau sydd ar

gael ar HWB Cymru a ddarperir gan adran addysg Llywodraeth Cymru

(<https://hwb.wales.gov.uk/Home/Pages/Home.aspx?lang=cy>).

- 1.4 Rhoddwyd ystyriaeth i fathau gwahanol o gynnyrch ar gyfer oedrannau gwahanol, o fabanod i'r arddegau. Roedd hynny'n cynnwys llyfrau dwyieithog yn ogystal â rhai Cymraeg yn unig. Ni roddwyd sylw manwl i werslyfrau addysgol. Yn naturiol, bu holi am fylchau yr oedd unrhyw garfan yn ymwybodol ohonynt.
- 1.5 Roedd dulliau cyfredol o farchnata llyfrau hefyd yn ganolog i'r trafodaethau ac felly yn yr adroddiad hwn ceir adborth oddi wrth y grwpiau buddiant gwahanol i'r hyn sy'n digwydd ym maes marchnata llyfrau i blant.

2. Dulliau a ddefnyddiwyd

- 2.1 Cynhaliwyd cyfweiliadau personol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn, fel y prif ddull o ganfod barn yn gyffredinol oddi wrth y prif chwaraewyr yn y maes yng Nghymru. Defnyddiwyd e-bost fel cyfrwng hefyd er mwyn casglu ffeithiau ac ystadegau, ac er mwyn cadarnhau safbwyntiau yn ysgrifenedig. Yn Atodiad 1 rhestrir y sefydliadau a'r cwmnïau a holwyd. Bu'r unigolion a gyfrannodd sylwadau a deunydd yn hynod o barod i roi amser i'r broses o bwysu a mesur a thrafod, ac roedd hi'n amlwg fod lles y maes a'r diwylliant y mae'n perthyn iddo o bwys i bawb, yn ddieithriad.
- 2.2 Defnyddiwyd holiaduron syml hefyd fel sail i'r drafodaeth – un gwahanol ar gyfer pob sector, yn naturiol. Gweler enghraifft yn Atodiad 2. Yn yr adroddiad, pan fydd crynodeb o sgwrs neu bwyntiau'n cael eu datgan, nodir o ba sector y daeth y sylwadau – athrawon, llyfrgellwyr, awduron ac yn y blaen.
- 2.3 Darparodd Adran Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru ddeunydd perthnasol megis rhestri cyhoeddi y gwahanol weisg, gwybodaeth am werthiant (roedd peth o hwn yn gyfrinachol, ac felly ni ddyfynnir gwybodaeth am werthiant cyhoeddwr unigol yn yr adroddiad), canlyniadau ymchwil farchnad, gwybodaeth am y gwaith o hyrwyddo Aps ac ati. Darparwyd rhai ystadegau yn ychwanegol gan y cyhoeddwr a chan lyfrgellwyr.
- 2.4 Gan fod cyd-destun cymdeithasol a gwleidyddol mor bwysig i unrhyw ddiwydiant, gwneir ymdrech yn yr adroddiad i edrych ar ddau beth pwysig iawn o safbwynt llyfrau plant: (i) y Fframwaith Llythrennedd sydd yn ofyniad statudol ers Medi 2013; (ii) newidiadau i gyllidebau a gwasanaethau awdurdodau lleol. O ran deall gwir oblygiadau'r ddau beth, byddai angen rhagor o ymchwil trylwyr, ond codir rhai pwyntiau fel enghreifftiau o ba mor bellgyrhaeddol yw dylanwad y naill a'r llall ar gyhoeddi llyfrau Cymraeg i blant.

2.5 Am fod yr ymgynghori wedi esgor ar sylwadau manwl gan y bobl a holwyd, mae natur lled storiol i'r adroddiad hwn, sy'n golygu cryn ddarllen i aelodau'r Panel. Gallwn fod wedi ceisio crynhoi mwy ond rwy'n credu fod gwerth mewn cofnodi'r sylwadau. Fe fydd y darllenydd yn sylwi fod gwahanol garfanau o fewn y byd llyfrau yn aml yn mynegi barnau gwahanol; mae hyn i'w ddisgwyl gan nad yr un yw buddiannau a safbwyntiau awduron, cyhoeddwr, llyfrwerthwyr, llyfrgellwyr a darllenwyr / prynwyr llyfrau.

2.6 Mae gen i, fel awdur yr adroddiad, argymhellion a nodir yn Rhan 14 o'r ddogfen hon. Barn bersonol ar sail y trafod a'r ymchwil sydd yno, ac yn sicr byddai unigolyn arall yn medru dehongli'n wahanol a chynnig argymhellion gwahanol. Mewn ambell achos, dim ond ategu'r hyn sydd wedi ei gynnig gan unigolion neu asiantaethau eraill (fel y nodwyd yn yr adrannau perthnasol) a wnaif; bryd arall byddaf wedi dehongli a blaenoriaethu yn ôl fy mhrofiad fy hun a'r cyfleoedd rwy'n barnu sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'n amhosib darogan sut y bydd technoleg yn carlamu ymlaen felly mae'n bosibl y bydd cynlluniau'n gorfod newid yn sydyn iawn dros y blynyddoedd nesaf. Bydd gweithredu'n gyflym ac achub ar bob cyfle yn arbennig o bwysig ac rwy'n ymddiheuro os bydd yr argymhellion sydd gen i yn yr adroddiad hwn yn dyddio mewn dim. Hyd yn oed os digwydd hynny, gobeithio y bydd yr agweddau y gwneir argymhellion yn eu cylch yn rhai fydd yn dal i haeddu sylw pellach ac y bydd yr ymgynghori'n parhau fel mater o arfer da, a hynny er lles y diwydiant.

2.7 Mae'n werth cofio un peth: er fy mod wedi siarad gyda'r sectorau gwahanol am lyfrau i blant, ar gyfer yr ymchwil hwn dydw i ddim wedi siarad â phlant. Efallai fod gormod o ddyfalu ynglŷn â chwaeth a blaenoriaethau plant yn digwydd o fewn y maes eisoes, a gellid cyhuddo awdur yr adroddiad hwn gymaint ag unrhyw un o esgeuluso'r lleisiau sy'n cyfri! Wrth gwrs, mae llawer o awduron yn cyfarfod plant yn gyson mewn ysgolion a llyfrgelloedd, ac maent hwy felly yn clywed barn plant yn rheolaidd.

3 Rôl y Cyngor Llyfrau

- 3.1 Mae cyhoeddwy'r yn cael cymorth i gyhoeddi llyfrau plant o ddwy ffynhonnell, Cyngor Llyfrau Cymru ac Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Yr Adran Addysg sy'n gyfrifol am noddi gwerslyfrau a deunydd addysgol arall o wahanol fathau, a maes y Cyngor Llyfrau yw noddi deunydd darllen hamdden o bob math.

Mae'r cyhoeddwy'r a gefnogir gan Grant Cyhoeddi y Cyngor Llyfrau yn rhannu'n ddau ddosbarth. Mae'r cyhoeddwy'r rhaglen yn cael cyllideb bob blwyddyn i gyhoeddi nifer penodol o lyfrau ar sail cais a wneir cyn dechrau y flwyddyn ariannol; y rhain yw'r cyhoeddwy'r sy'n cyhoeddi y nifer mwyaf o lyfrau, ac ym maes llyfrau plant maent yn cynnwys Gwasg Carreg Gwalch, Gwasg Gomer, Gwasg y Dref Wen, Rily a'r Lolfa. Yn achos y cyhoeddwy'r eraill sy'n cyhoeddi llai o lyfrau'r flwyddyn gyda chymorth grant, fe gaiff eu ceisiadau eu hystyried fesul llyfr ym Mhanel Grantiau Cyhoeddi (Cymraeg) y Cyngor sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn. Mae Atebol, Cyhoeddiadau'r Gair a Dalen yn cyhoeddi o dan y drefn hon. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau (AdAS) yn gweithredu system dendr am lyfrau a deunydd addysgol arall.

- 3.2 Mae'r cyfanswm blynyddol o lyfrau Cymraeg i blant a gyhoeddir gyda chymorth grant Cyngor Llyfrau Cymru wedi aros yn debyg dros y ddegawd ddiwethaf, sef tua 100 llyfr.
- 3.3 Mae'r cyfanswm o lyfrau Cymraeg i blant a dderbyniwyd gan Ganolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau dros yr un cyfnod wedi aros yn debyg iawn. O 2002 hyd at 2012, mae'r nifer wedi bod rhwng 305 a 357 teitl ac eithrio yn 2010. (Yn y flwyddyn honno cyhoeddwyd 420 teitl ond teitlau unigol mewn cyfresi addysgol oedd yn gyfrifol am y gwahaniaeth: Prosiect X - 29 teitl, Dechrau Da - 21 teitl, Bwrlwm - 12 teitl, Darllen mewn Dim - 12 teitl.)

- 3.4 Dyma'r wybodaeth am gyfartaledd gwerthiant llyfrau plant y cyhoeddwy'r rhaglen dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ffigurau gwerthiant 18 mis yn rhai a gesglir 18 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y cyhoeddwyd y llyfr ynddo, a'r ffigurau 6 mis yn rhai a gesglir 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y cyhoeddwyd y llyfr ynddo.

Cymharu Ffigurau Gwerthiant 18 mis llyfrau Rhaglen Plant 04/05, 06/07, 07/08, 08/09, 09/10, a 10/11

	Plant 04/05	Plant 05/06	Plant 06/07	Plant 07/08	Plant 08/09	Plant 09/10	Plant 10/11
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion							
Gwasg Carreg Gwalch							
Gwasg Gomer							
Gwasg Gwynedd							
Gwasg y Dref Wen							
Y Lolfa							
Cyfartaledd y chwe chyhoeddwr	1,180	1,245	1,148	1,131	1,107	957	856

Cymharu Ffigurau Gwerthiant 6 mis llyfrau Rhaglen Plant 04/05, 06/07, 07/08, 08/09, 09/10, a 10/11

	Plant 04/05	Plant 05/06	Plant 06/07	Plant 07/08	Plant 08/09	Plant 09/10	Plant 10/11	Plant 11/12
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion								
Gwasg Carreg Gwalch								
Gwasg Gomer								
Gwasg Gwynedd								
Gwasg y Dref Wen								
Y Lolfa								
Cyfartaledd y chwe chyhoeddwr	924	970	883	871	831	745	648	775

- 3.5 Dylid nodi fod tŷ cyhoeddi oedd yn arbenigo mewn llyfrau i blant, sef Cymdeithas Lyfrau Ceredigion, wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi ym Mawrth 2009 pan brynwyd y wasg gan Wasg Gomer. Roedd ganddynt rai teitlau poblogaidd iawn megis teitlau Sali Mali. Gan fod cwmni Rily wedi dod yn gyhoeddwr rhaglen yn 2013, bydd ffigurau newydd i'w hychwanegu at y tabl yn y man, a chan fod nifer o werthwyr da gan y wasg hon, bydd hynny'n cael dylanwad llesol ar y cyfartaledd.

- 3.6 Mae pob tŷ cyhoeddi'n poeni am gynnal trosiant. Wrth wneud hynny, mae tuedd weithiau i gyhoeddwr edrych ar y cyfansymiau gwerthiant ac incwm o fewn y wasg heb o angenrheidrwydd roi sylw manwl i berfformiad un categori neu ddosbarth o lyfrau. Fodd bynnag, mae angen nodi fod pob cyhoeddwr wedi mynegi pryder am batrymau gwerthu/prynu ar hyn o bryd ac maent yn sylweddoli bod angen bod yn ddyfeisgar, deall y farchnad a chryfhau ymdrechion i farchnata llyfrau i blant. Pan drafodwyd gyda'r gweisg, roedd pob un ohonynt yn croesawu'r ffaith fod y Panel Grantiau yn rhoi ystyriaeth arbennig i lyfrau plant trwy drefnu'r ymchwil hwn.
- 3.7 Mae bywiogrwydd holl faes llyfrau plant yn berthnasol i waith yr Adran Grantiau, felly byddant yn cadw llygad ar werthiant llyfrau plant trwy'r Ganolfan – sy'n cwmpasu pob math o gynnyrch, nid llyfrau grant yn unig. Mae'n galonogol fod gwerthiant llyfrau Cymraeg i blant drwy'r Ganolfan yn parhau'n sylweddol ar hyn o bryd.

2006/7	2007/8	2008/9	2009/10	2010/11	2011/12	2012/13
£1,015,737	£1,075,773	£1,019,668	£1,215,042	£985,381	£1,110,053	£1,165,798

- 3.8 Afraid dweud mai llyfrau Cymraeg i blant yw'r 'categori' mwyaf o safbwynt trosiant y Ganolfan. Mae'n faes allweddol i'r presennol, felly, yn ogystal â bod yn allweddol i'r dyfodol – gan fod unrhyw lwyddiant gyda darllenwyr o blant yn fodd i fagu cynulleidfia ar gyfer llyfrau oedolion ymhen ychydig flynyddoedd, heb sôn am gymdeithas ddwyieithog, lengar, wâr!
- 3.9 Am flynyddoedd lawer mae'r Cyngor Llyfrau wedi bod yn dosbarthu grantiau cynhyrchu, sef arian a ddosberthir i ddigolledu gwasg am fod gwariant ar gynhyrchu llyfr yn fwy na'r incwm a ddaw o'i werthu. Y rheswm sylfaenol pam fod angen y nawdd hwn yw maint y farchnad Gymraeg. Nid oes cynnydd o bwys wedi bod yn y grantiau cynhyrchu ers nifer fawr o flynyddoedd, ond mae'r gefnogaeth i'r gweisg ac i'r broses o greu llyfr wedi cynyddu o ganlyniad i fathau eraill o nawdd sydd ar gael.

- 3.10 Un elfen bwysig yn y gefnogaeth a gynigir gan y Cyngor Llyfrau i faes llyfrau plant (a llyfrau oedolion) yw'r swyddi golygyddol a gefnogir yn y gweisg, gan fod sawl golygydd yn gweithio'n benodol neu'n bennaf ar lyfrau Cymraeg i blant. Mae hyn yn wir am swyddi yng Ngwasg Gomer, y Lolfa, Gwasg Carreg Gwalch a Rily Publications. Am gyfnod noddwyd swydd olygyddol yng Ngwasg y Dref Wen hefyd. Mae'r math o lyfrau y mae gwasg yn gallu ymgymryd â hwy a'r math o gynllunio strategol y mae'n medru ei wneud yn dibynnu ar gael staff addas sy'n datblygu arbenigedd. Cryfhawyd y tîm golygyddol mewn sawl gwasg o ganlyniad i'r swyddi a noddir.
- 3.11 Mae'r cynnyrch hefyd wedi elwa o'r ffaith fod cynnydd sylweddol wedi bod yn yr arian sydd ar gael i awduron ers 2002/03. Mae'r Cyngor wedi rhannu'r arian hwn yn ddwy ran, sef Cynllun A a Chynllun B. O dan Gynllun A, fe rennir grantiau o rhwng £5,000 a £12,000 y llyfr; mae cystadleuaeth agored ar gyfer y grantiau hyn ac ystyrir pob cais gan y Panel Grantiau. Mae Cynllun B ar gyfer grantiau llai, hyd at £3,000 y llyfr; yn achos y cyhoeddwyr rhaglen, fe gânt gyllideb flynyddol ar gyfer y cynllun hwn, ac maent yn rhoi cyfrif i'r Cyngor am y gwariant. Gall y cyhoeddwyr eraill wneud cais am arian Cynllun B hefyd. Oherwydd hyd cymharol llyfrau plant a llyfrau oedolion, Cynllun B sydd fwyaf perthnasol ar gyfer taliadau i awduron llyfrau plant, er bod arian Cynllun A wedi ei roi i rai llyfrau, yn enwedig pâr o lyfrau mewn cyfres, dyweder. Bydd y Panel Grantiau yn ymwybodol pa mor allweddol yw arian awduron i'r arlwy i blant, a chynifer o awduron sydd wedi cael eu comisiynu gyda'r arian hwn dros y blynyddoedd diwethaf i greu llyfrau y mae'r cyhoeddwyr yn barnu sydd eu hangen yn y farchnad. Mae grantiau tuag at ddeunydd gweledol, sef taliadau am luniau, ffotograffau a dylunio, i'w cael o dan Gynlluniau A a B hefyd, ac mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at ansawdd y llyfrau sydd ar gael ym maes llyfrau plant. Mewn sawl achos dros y blynyddoedd diwethaf gwnaed cais am arian Cynllun A ar gyfer arlunwaith uchelgeisiol a dylunio proffesiynol. Mae hyn oll wedi cael dylanwad llesol iawn ar safon a diwyg llyfrau Cymraeg gwreiddiol.

4. Safbwynt y Cyhoeddwr

4.1 Trafodwyd gyda pherchnogion neu swyddogion yn y tai cyhoeddi canlynol:

Atebol
Canolfan Astudiaethau Addysg
Cyhoeddiadau'r Gair
Dalen
Gwasg Carreg Gwalch
Gwasg Gomer
Gwasg Y Dref Wen
Rily
Y Lolfa

4.2 Mae'r pum cyhoeddwr olaf yn gyhoeddwr rhaglen o dan y Grant Cyhoeddi a weinyddir gan y Cyngor Llyfrau; mae Atebol, Cyhoeddiadau'r Gair a Dalen yn gyhoeddwr ceisiadau unigol, ac nid yw y Ganolfan Astudiaethau Addysg yn cael grantiau gan y Cyngor gan mai deunydd addysgol yn unig a gyhoeddir ganddynt. Mae yna gydnabyddiaeth bod angen mwy o gymorth i greu deunydd gwreiddiol nag i wneud addasiadau, oherwydd y buddsoddiad mewn dylunwaith ac arlunwaith a hefyd am fod awduron yn pwysu am ffioedd gwell am ysgrifennu gwaith gwreiddiol nag addasu.

4.3 Yn ogystal â chyhoeddi gyda chymorth grantiau gan Gyngor Llyfrau Cymru, mae sawl cyhoeddwr hefyd yn cyhoeddi llyfrau trwy gymorth grant gan AdAS, gan ddilyn y llwybr tendro er mwyn ennill yr hawl i greu deunydd mewn ymateb i fanyleb benodol. Er gwybodaeth, 12 cyhoeddwr sydd o fewn fframwaith tendro cyfredol AdAS.

4.4 O blith y cyhoeddwr rhaglen, bydd cwmni Rily yn cyhoeddi llawer o deitlau bob blwyddyn heb nawdd. Addasiadau o lyfrau Saesneg ydynt, lle mae'r pris yn caniatáu rhywfaint o elw gan eu bod yn prynu niferoedd sylweddol. Mae cwmnïau sy'n derbyn grantiau am lyfrau unigol, megis Atebol a Cyhoeddiadau'r Gair, hefyd yn cyhoeddi rhai o'u llyfrau heb gymorth grant.

- 4.5 Bydd cyhoeddwr rhaglen weithiau'n cyhoeddi llyfr heb nawdd, ond gyda chydweithrediad asiantaeth arall, lle bydd cyfraniad o fath arall. Er enghraifft, efallai y bydd ymrwymiad o ran prynu nifer arbennig o gopiâu, neu bydd gwaith celf sy'n bodoli eisoes ar gyfer cyfrwng arall yn cael ei ddarparu gan asiantaeth fel rhan o'r cytundeb cyhoeddi. Gall arbedion o'r fath wneud cyhoeddi'n bosibl heb grant.
- 4.6 Un agwedd ar gyhoeddi llyfrau plant yr oedd y cyhoeddwr yn gadarnhaol yn ei chylch oedd yr amrywiaeth o lyfrau sy'n bosibl oherwydd adnoddau dynol – yn awduron, arlunwyr a dylunwyr, yn ogystal â staff dawnus o fewn y tai cyhoeddi. Mae'n amlwg fod gweisg yn medru troi at awduron profiadol, medrus ond maent hefyd yn barod i feithrin talent newydd, gan fod golygyddion creadigol yn barod i diwtora a datblygu gwaith addawol. Gwelwyd nifer o enwau newydd ym maes llyfrau plant dros y pum mlynedd ddiwethaf, ac mae'r ffaith bod eu gwaith yn addas i'w gyhoeddi yn aml yn ganlyniad i dalent golygydd fel mentor.
- 4.7 I'r mwyafrif o awduron, nid ysgrifennu llyfrau yw eu prif waith. O ganlyniad, maent yn aml yn methu cadw at amserlen, sy'n golygu fod yn rhaid i weisg gael llawer o gynlluniau wrth gefn a bod yn barod i jyglo teitlau. Mae awduron sy'n ysgrifennu er mwyn gwneud bywoliaeth (sydd yn cynnwys mathau eraill o ysgrifennu fel arfer) yn well am gadw at amserlen ond maent yn credu fod y symiau sydd ar gael yn rhy fach iddynt. Nid yw'r symiau wedi codi ers degawd a mwy.
- 4.8 Gan fod pob cyhoeddwr rhaglen yn rheoli ei gyllideb Cynllun B ei hun, nid y Cyngor Llyfrau sy'n pennu union ffi awdur am greu neu addasu gwaith. Fodd bynnag, efallai y byddai'n dda o beth i'r Adran Grantiau drafod gyda'r cyhoeddwr rhaglen a ydyn nhw'n gwneud digon i ddenu'r awduron proffesiynol gorau i ysgrifennu ar gyfer plant. Mynegodd nifer o awduron eu pryder am y ffioedd annigonol ar gyfer gwaith gwreiddiol, ac mae eu dadl yn un gwbl ddealladwy: gweler yr adran ar safbwynt awduron (Rhan 6, tud 23) a llythyr Bethan Gwanas yn Atodiad (iii).

4.9 Roedd rhai o'r gweithiau yr oedd cyhoeddwy yn tynnu sylw atynt ac yn falch iawn ohonynt am eu gwerth llenyddol, eu diwyg neu eu gwreiddioldeb, yn aml yn rhai a oedd wedi bod yn siomedig o ran gwerthiant. Mae llyfrau stori-a-llun gwreiddiol, llyfrau anrheg a llyfrau ffeithiol i gyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol a phur anaml y bydd y gwerthiant yn cyfiawnhau'r buddsoddiad. Er mwyn gwneud yn iawn am hyn, bydd golygyddion yn sicrhau fod yna deitlau eraill ar y rhestr sy'n sicr iawn o fod yn llwyddiant masnachol. Wrth gwrs, nid yw amcangyfrif gwerthiant yn hawdd, ac mae'n amlwg fod rhai cyhoeddwy wedi cymryd gormod o risg gyda rhai llyfrau ac amcangyfrif gormod o lwyddiant gydag eraill. Canlyniad hyn yw cyfartaledd gwerthiant nad yw'n cyrraedd y nifer sydd gan Gyngor Llyfrau Cymru fel targed, ac ar adegau gwneir colled ar gasgliad o lyfrau yn hytrach na'r elw a amcangyfrifwyd. Ar y llaw arall, mae gennym gynnyrch sy'n amrywiol ac yn aml o safon uchel. Pan fydd cyhoeddwy yn asesu eu llwyddiant eu hunain, bydd safon cynnyrch yn cyfri yn ogystal â gwerthiant. Er hynny, er mwyn goroesi, rhaid iddynt adennill eu buddsoddiad rywsut.

4.10 Mae'n amlwg fod y tai cyhoeddi'n rhoi ystyriaeth i nifer o anghenion y cynulleidfaoedd targed, gan anelu at lwyddiant masnachol. Er enghraifft, (i) ceir rhyw fath o gymorth i rieni di-Gymraeg yn arlwy y rhan fwyaf o'r gweisg sy'n cyhoeddi llyfrau i blant bach, er bod y dull a fabwysiedir yn amrywio'n fawr. (ii) Bydd pob gwasg yn trafod sut i apelio at fechgyn, sy'n bwnc llosg arall. (iii) Mae gan pob gwasg lyfrau sy'n gysylltiedig â'r hyn y bydd plant yn ei fwynhau ar y teledu. (iv) Bydd pob gwasg yn gwneud ymdrech i becynnu peth o'u deunydd mewn cyfresi, er mwyn bachu a chadw darllenwyr ar gyfer dilyniant o deitlau. (v) Mae gan nifer o'r gweisg deitlau a fydd yn bodloni angen rhiant i helpu'r plentyn ddatblygu'n addysgol.

Felly mae nifer o'r llwybrau a fyddai'n gallu arwain at werthiant sylweddol eisoes yn cael eu dilyn, ond efallai nad yw'r bwriad a'r brandio a'r targedu'n ddigon dwys. Mae'n ymddangos fod y gweisg i gyd yn ceisio cyflawni llawer o bethau gwahanol ar yr un pryd.

- 4.11 Dywedodd mwy nag un cyhoeddwr eu bod yn ofni fod gormod o lyfrau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer plant o dan 7 oed. Gan ei bod yn gynulleidfa darged addawol, mae cystadlu mawr rhwng y gweisg amdani. Gan mai bach iawn yw'r siopau llyfrau ar y cyfan, a dim lle na chyllid ganddynt i gadw stoc helaeth, a chan fod y pwyslais bob amser ar lyfrau newydd, yn aml bydd llyfrau'n diflannu o'r silffoedd cyn eu bod wedi cael siawns i gyrraedd eu potensial fel gwerthwyr. Fe welir yn yr adrannau canlynol fod barn y llyfrwerthwyr, y llyfrgellwyr a'r cwsmeriaid yn wahanol a'u bod yn croesawu fod dewis helaeth o lyfrau ar gael i'r plant ifanc.

Gallai'r gweisg wneud ymdrech arbennig i glirio teitlau sydd yn eu hail flwyddyn neu'n hŷn na hynny trwy wneud cynnig arbennig i siopau am brynu, dyweder, 20 neu ragor, i ddibenion ffeiriau llyfrau mewn ysgolion neu feithrinfeydd. Nid yw'r cysyniad o 'newydd' yn hanfodol i blant dan 7 oed ac efallai byddai pris gostyngol yn abwyd i rieni wario ar lyfrau.

- 4.12 Mae peth gorgyffwrdd rhwng deunydd addysgol a deunydd hamdden wedi bod dros y blynyddoedd. Llyfrau hamdden yw maes cefnogaeth y Cyngor Llyfrau a llyfrau addysgol sy'n cael eu comisiynu ym mhrosiectau AdAS. Er hynny, gwelwyd cyhoeddwr addysgol megis Canolfan Astudiaethau Addysg yn cyhoeddi cyfres fel Henri Helynt, ond wrth gwrs mae llyfrau storïol o'r math hwn yn llyfrau y gellir eu defnyddio yn yr ysgol neu'r cartref. Ac mae gan gyhoeddwyr rhaglen y Cyngor Llyfrau ambell i deitl ffeithiol yn eu rhaglenni y gellid eu hystyried yn rhai addysgol, ond mae marchnad i'r rhain fel llyfrau i'w defnyddio yn y cartref yn ogystal ag yn yr ysgol. Ceir geiriaduron, beiblau, ymarferion iaith, atlas a llyfrau dysgu rhifo ymhlith y llyfrau a gyhoeddwyd gyda chymorth grantiau'r Cyngor. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl i'r cyhoedd na'r darllenwyr; pur anaml y bydd prynwr yn ymddiddori yn y print mân ar y dudalen sy'n nodi manylion cyhoeddi ac argraffu. Nododd y cyhoeddwyr fod hyblygrwydd y Cyngor Llyfrau wrth gefnogi rhaglen amrywiol o lyfrau wedi bod yn help mawr ar adegau lle roedd cyfle da yn codi i gyhoeddi math arbennig o lyfr. Gan fod y

tendrau a gynigir gan AdAS yn 2013 yn cynnwys llawer llai o lyfrau a mwy o ddeunydd digidol, a hwnnw y tu hwnt i'r farchnad fasnachol, mae'n debyg y bydd gorgyffwrdd yn llai fyth o broblem yn y dyfodol.

4.13 Gwelir yn y rhestr o lyfrau a gyhoeddwyd fod llawer o'r cyhoeddwyd wedi dangos amseru da wrth gyhoeddi cyfrolau arbennig dros y blynyddoedd diweddar. Er enghraifft, cafwyd llyfr pêl-droed, *Cwpan y Byd 2010*, Mai 2010 (y Lolfa); wedyn *Cwpan Rygbi'r Byd*, Mai 2011 (y Lolfa); *Y Gemau Olympaidd a Champau'r Cymry*, Mai 2012 (Gomer); *Asterix yn y Gemau Olympaidd*, Awst 2012 (Dalen). Eleni cyflawnodd Rily tipyn o gamp yn cyhoeddi *Llawlyfr Minecraft* yn y Gymraeg ar yr un pryd â'r llawlyfr Saesneg cyntaf erioed. Mae'n golygu y gall defnyddiwr sy'n Gymro neu'n Gymraes ddechrau ymddiddori trwy gyfrwng y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf. Mae Rily hefyd wedi symud yn sydyn o ran addasu *Tom Gates* i fod yn *Twm Clwyd*. Erbyn hyn mae'r gyfres yn ennill tir yn sylweddol felly mae'n dda ei gweld yn y Gymraeg hefyd.

4.14 Mae'n ofid i gyhoeddwyd sy'n creu llyfrau gwreiddiol i blant yn ogystal ag addasiadau fod yr addasiadau yn aml yn gwerthu'n well. Dywedodd Sioned Lleinau o Wasg Gomer y byddai'n dymuno gwella'r deunydd gwreiddiol ymhellach trwy fuddsoddi mwy mewn elfennau gweledol. Mewn llyfr gweledol, mae'r arlunydd yn llawn cymaint o 'awdur' ag yw'r awdur geiriau.

4.15 Mae'r cyhoeddwyd o'r farn fod y farchnad yn crebachu ar hyn o bryd. Y ddau brif reswm a gynigiwyd am hyn oedd bod arferion plant yn newid yn gyflym iawn, a bod cyllidebau'r sector gyhoeddus yn cael eu torri (ysgolion a llyfrgelloedd). Mae'r tueddiadau cyffredinol felly'n destun gofid.

4.16 Yn wyneb y bygythiad hwn, barn y cyhoeddwyd i gyd yw y dylid marchnata a hyrwyddo llyfrau i blant yn fwy effeithiol a byddai'n dda gweld mwy o fuddsoddiad yn y rhan honno o'r maes. Cael adnoddau dynol o fewn y gweisg yw'r dewis cyntaf; roedd y

cyhoeddwy'r yn cofio am y Strategaeth Farchnata Gytûn a luniwyd gan wahanol sectorau'r diwydiant yn 2000 ac yn ymwybodol mai ceisio adnoddau marchnata oedd y targed nesaf i fod ar ôl cael arian ar gyfer gwella'r deunydd, sef yr arian a gaed ar gyfer awduron a deunydd gweledol a'r arian a gaed ar gyfer swyddi golygyddol.

- 4.17 Barn y cyhoeddwy'r i gyd oedd bod y marchnata cyffredinol ar lyfrau Cymraeg i blant yn sylfaenol iawn, a phan fydd cyfle i gyhoeddwr gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cyffredinol fel taflenni Llyfrau'r Haf a Gwledd y Nadolig, mae wedi mynd yn gostus iddynt. Roedd gan gyhoeddwy'r sylwadau hefyd ar sut y gallai'r Cyngor ac asiantaethau eraill ymgymryd â rhai mentrau ar y cyd a fyddai'n tynnu sylw at lyfrau. Ymdrinnir â rhai o'r syniadau yn yr adran ar Farchnata a Hyrwyddo.
- 4.18 Cafwyd enghreifftiau o ymgyrchoedd marchnata lle bu'r cwmni hyrwyddo a gefnogid gan y Cyngor yn llywio'r trefniadau. Dywedodd Lynda Tunnicliffe o gwmni Rily fod y datganiad i'r wasg a wnaed ganddynt adeg cyhoeddi cyfrol gyntaf Dyddiadur Dripsynd wedi llwyddo i danio diddordeb y BBC. (Lynda ei hun wedyn a drefnodd y cyfweiliad gyda Jeff Kinney.) Roedd hi wedi awgrymu erthygl yng nghylchgrawn *Cip* a threfnwyd hynny ganddynt hefyd. Fel arall, ni welwyd marchnata ar raddfa gyffrous. Dywedodd Gwilym Boore o Wasg y Dref Wen fod perfformiad yr hyrwyddwr gyda'r ffeiliau sain ar y we wedi bod yn siomedig. Gellid fod wedi defnyddio dulliau rhyngweithiol fel mums.net ac ati ond doedd dim elfennau ychwanegol fel hyn wedi eu cynnig gan y cwmni hyrwyddo.
- 4.19 Gofynnwyd un cwestiwn mawr gan gyhoeddwr: o ystyried pwysigrwydd marchnata, ydy'r buddsoddiad presennol mewn agweddau allweddol yn taro'r cydbwysedd angenrheidiol: mae golygyddu, dylunio a marchnata i gyd yn bwysig. Pa un sy bwysicaf o ran goroesi?

- 4.20 Gan fod y cyhoeddwywr i gyd yn defnyddio gwasanaeth dosbarthu'r Ganolfan Ddosbarthu, bu peth trafod ar ei effeithlonrwydd. Bernir bod trefniadaeth a systemau'r lle yn gweddu'n dda i lyfrau newydd ond y ceir rhai problemau gyda llyfrau'r ôl-restr. Byddai'n fuddiol i'r Ganolfan ystyried eu systemau mewnol ac i drafod y materion hyn gyda'r cyhoeddwywr er sicrhau llif cyson o lyfrau yn cyrraedd y siopau. Fel arall, bydd statws argaeledd Gwales yn camarwain cwsmeriaid i gredu nad yw'r llyfr ar gael.
- 4.21 Dywedodd y cyhoeddwywr y byddai'n dda derbyn mwy o adborth i'r cynnyrch trwy gyfrwng y cynadleddau gwerthiant a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Dylid sicrhau fod sianeli clir i'w dilyn er mwyn canfod ymateb partneriaid allweddol megis llyfrwerthwyr a llyfrgellwyr a chwsmeriaid allweddol megis yr ysgolion.
- 4.22 Mae cyfleoedd gwerthu llyfrau plant i deuluoedd nad ydynt yn fynychwyr siopau llyfrau Cymraeg yn parhau i fod yn her. Dywedodd Gwilym Boore fod rôl yr archfarchnadoedd yn y fasnach yn allweddol erbyn hyn ac roedd am weld lloŷo gan y Cyngor Llyfrau er mwyn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ym maes cynllunio. Awgrymodd y gallai fod yn amod wrth i ganiatâd cynllunio gael ei roi i archfarchnad newydd fod cynnyrch diwylliannol Cymreig a Chymraeg yn gorfod cael ei stocio. Gallai hyn gynnwys llyfrau, cerddoriaeth, DVDs ac ati.

5. Safbwynt y Llyfrwerthwyr

- 5.1 Er mwyn cael sampl o farn perchnogion siopau llyfrau yng Nghymru, holwyd perchnogion chwe siop lyfrau. Gweler Atodiad Un am fanylion.
- 5.2 Mynegodd mwy nag un siopwr siom nad oes catalog llyfrau plant ar gael mewn print bellach. Mae'n ymddangos nad yw'r deunydd digidol yn rhoi'r un cyfle i siopwr wneud awgrymiadau a helpu cwsmeriaid. Nid yw'n bosibl awgrymu mwyach bod cwsmeriaid yn mynd â'r catalog adre i bori ynddo a gwneud penderfyniadau.
- 5.3 Roedd siopwyr yn unfrydol fod dewis da o lyfrau ar gyfer plant bach hyd at 7 mlwydd oed a dyma lle mae'r gwerthiant mwyaf. Ni chafwyd unrhyw sylwadau negyddol am ddiwyg, pris nac addasrwydd y deunydd. Fodd bynnag, yn yr oedran hwn, dylid ystyried rhai agweddau ychwanegol:
- Mae galw pendant am lyfrau dwyieithog, a gwerthiant arwyddocaol hefyd. Felly mae angen sicrhau fod digon yn cael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, mynegodd mwy nag un siopwr yr angen i becynnu'r cyfryw ddeunydd mewn ffordd glir a deniadol, a fydd yn meithrin ymwybyddiaeth y prynwyr o ddefnyddioldeb y deunydd i oedolion di-Gymraeg. (Bydd hyn hefyd yn help i brynwyr Cymraeg sydd am eu hosgoi.) Barn siopwr arall oedd fod yr amrywiaeth o ran fformat yn beth da, er mwyn galluogi pobl i brynu'r hyn maent yn gyfforddus ag ef. Mae'r amrywiaeth yn cynnwys: testun dwyieithog, maint y teip yn gyfartal; testun dwyieithog, y Gymraeg yn fawr a'r Saesneg yn fach iawn; testun Cymraeg yn y llyfr, cyfieithiad Saesneg tu mewn i'r clawr; testun Cymraeg ar frig y dudalen, Saesneg ar y gwaelod; darlleniadau o lyfrau Cymraeg ar gael i'w lawrlwytho am ddim (oddi ar wefan Gwasg y Dref Wen). Roedd un siopwr o'r farn ei bod hi'n werth arbrofi gyda chymorth i rieni o safbwynt ynganu. Dywedodd fod *Hide and Speak Welsh* (Rily) yn boblogaidd iawn, yn rhannol am fod sillafiad anarferol yn y Saesneg yn cael ei gynnig o dan y geiriau Cymraeg er mwyn helpu'r rhieni gydag ynganu. Roedd o'r farn fod angen ymgyrch arbennig i gynyddu hyder rhieni di-Gymraeg wrth brynu a defnyddio llyfrau Cymraeg (gweler

Marchnata a Hyrwyddo). Roedd yr un siopwr yn falch iawn o gael deunydd fel Mr Men (Rily) sydd, gyda'i hiwmor gweledol a natur eiconaidd y syniad, yn pontio plant a'u rhieni yn ogystal â dysgwyr o bob oed.

- Mae prinder o lyfrau lle mae darlleniad ar CD ar gael gyda'r llyfr. Mae straeon Rwdlan (y Lolfa), *Stori, Stori* (Gomer) a *Barti Smarti* (Gomer) yn eithriadau prin. Gallai'r cyfuniad hwn gael lle canolog yn y farchnad petai cyhoeddwr yn cydio yn y syniad o ddifri.
- Mae prinder o deganau a deunydd atodol arall. Mae teganau a llyfrau wedi eu cyfuno mewn pecyn yn gyffredin iawn yn Saesneg ond does nemor ddim ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd. Soniwyd am ddoli Sali Mali fel un ffefryn nad yw ar gael bellach. Byddai cardiau fflach, pypedau, pypedau bys a mathau eraill o deganau yn ddefnyddiol ar gyfer y farchnad anrhegion. Mae galw rheolaidd am ddeunydd Sam Tân ac mae'n drueni mawr nad oes dim ar gael.
- Bydd rhieni'n chwilio am lyfrau 'dysgu' darllen am eu bod, yn naturiol, am helpu eu plant, ond does dim llawer o ddewis. Mae teitlau unigol Darllen Mewn Dim (y Lolfa) ar gael, ac yna mae Bananas (Dref Wen) wedi eu graddoli yn ôl lliwiau. Bydd cwsmeriaid yn aml yn holi am deitlau Coeden Rhydychen a byddai'n dda gan lyfrwerthwyr fedru cynnig llyfrau eraill a fyddai'n medru gweithio fel estyniad i Goeden Rhydychen, yn debyg o ran safon iaith a chynnwys. Byddai angen cael rhai i'w gwerthu am bris rhesymol, ac efallai na fyddai diwyg mor bwysig â'r ffactorau eraill yn yr achos hwn, sef cynnwys priodol a phris rhesymol. Byddai angen eu gwerthu yn unigol hefyd. [Nodyn: yn 2014 penderfynodd Gwasg Gomer werthu llyfrau o'r cynllun darllen Pobl Pentre Bach fel llyfrau unigol yn ogystal ag fel pecyn – hyn ar gais ysgolion ac unigolion.] Petai deunydd defnyddiol, rhesymol ar gael, roedd siopwyr o'r farn y byddai rhieni'n ymateb yn gadarnhaol iawn. Mae cyfres Straeon Sam y Ci ar fin ei chyhoeddi (Lolfa a Dewch i Mewn Cyf., Tachwedd 2013) ond nid yw'r pris gwerthu na'r pecynnu yn debygol o arwain at werthiant mawr ymhlith rhieni nad ydynt wedi cael profiad o arweiniad yr awdur, Emyr Llywelyn. £7.50 am 3 llyfr yw'r isafswm, gyda llawlyfr am £14.95.

- O ran deunydd i helpu iaith a sgiliau cyfathrebu plentyn, mae cyfres Helpwch eich Plentyn (Gomer) yn parhau i werthu'n gyson, ac felly hefyd cyfres Gwaith Cartref (Atebol). Gwerthwr da arall yw *Parod i Ysgrifennu* (Dref Wen), sy'n rhoi cyfle i blentyn ddilyn dotiau er mwyn dysgu ffurfio'r llythrennau.
- Mynegwyd pryder fod cyn lleied o gymeriadau gwreiddiol yn ganolog i'r arlwy erbyn hyn. Dim ond Rwdlan a'i chriw (Y Lolfa), Sali Mali a chymeriadau Pentre Bach (Gomer) ac Alun yr Arth (y Lolfa) sy'n dal eu tir. Maent i gyd yn boblogaidd.

5.4 Gyda llyfrau i blant 7-9, roedd canmolïaeth i gyfresi. Mae brandio cryf a dilyniant o deitlau ar yr un safon ac ar thema debyg yn rhoi hyder i blentyn wrth ddewis ac mae'n ganllaw arbennig o dda i lyfrwerthwr, rhiant, athro neu unrhyw brynwr arall. Ymhlith y cyfresi poblogaidd enwyd: Cyfres yr Arch Anifeiliaid Bach (Rily), Bechgyn am Byth (Gomer), Gweld Sêr (Carreg Gwalch), Siriol Swyn (Gomer), Cyfres Lliw a Llun (Dref Wen), Lolipops (Gomer), Bwrlwm (llyfrau ffeithiol CAA); nofelau Roald Dahl (Rily), Tudr Budr (Gomer), Alana, Seren y Ddawns (Carreg Gwalch) a chyfres ffeithiol Dechrau Da (Gomer).

20

5.5 Gan fod cynifer o gyfresi ar gael, dywedodd sawl siopwr ei bod yn anodd wrth argymhell cyfres i oed arbennig. Byddai'n ddefnyddiol iawn i siopwr gael cerdyn gwybodaeth yn dangos ble ar yr ystod oedran mae'r cyfan yn ffitio – rhyw fath o 'Ready Reckoner' i'w gadw dan y cownter.

5.6 O droi at lyfrau i oed 9-11, roedd llyfrwerthwyr o'r farn fod brandio clir a dilyn ffasiwn yn dod yn bwysicach fyth. Felly mae llyfrau Dyddiadur Dripsyn (Rily), addasiad o Diary of a Wimpy Kid, wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae cyfres wreiddiol Cawdel (Gomer) sy'n seiliedig ar leoliadau'r Urdd, hefyd wedi taro deuddeg. Er nad oes modd brandio pob cyfres gyda chymeriad penodol neu arlunwaith cyffredin, a hynny am fod y teitlau mor amrywiol, eto roedd y llyfrwerthwyr yn gweld gwerth y pecynnu, am ei fod yn rhoi arweiniad i siopwr neu riant ynghylch pa deitlau i'w hargymhell ar gyfer oedran arbennig.

Gwnaed y pwynt fod angen mwy o wybodaeth ddibynadwy oddi wrth y gweisg ac yna trwy'r cynrychiolwyr am union gynulleidfa ambell gyfres, e.e. cyfres Strach (Gomer). Dywedwyd hefyd bod angen gwell diwyg ar gyfer rhai cyfresi i'r oedran hwn, fel Cyfres yr Onnen a Chyfres y Dderwen (y Lolfa) – er, nodwyd bod clawr ambell deitl yn effeithiol iawn, e.e. *Aderyn Brau*, Mared Llwyd.

- 5.7 Ar gyfer darllenwyr 11+, nodwyd fod y dewis o awdur yn dod yn fwy pwysig. Bydd plant yn chwilio am ddeunydd gan Bethan Gwanas, Manon Steffan a Gareth F Williams, er enghraifft, am eu bod wedi cael eu plesio gan lyfrau penodol. Dywedwyd nad oes digon yn cael ei wneud i gryfhau proffil llawer o awduron eraill.
- 5.8 Yn ychwanegol at y llyfrau poblogaidd sy'n helpu plant gyda'u gwaith ysgol (gweler 5.3 uchod), nodwyd yr angen am lyfrau adolygu a pharatoi at arholiad. Mae'n farchnad enfawr yn Saesneg.
- 5.9 Pwysleisiodd y llyfrwerthwyr cymaint o wahaniaeth mae parodrwydd awdur i hyrwyddo ei hun yn ei wneud i broffil llyfr neu gyfres. Enwyd Anwen Francis fel awdur sydd yn medru creu cyffro anhygoel am ei gwaith, am ei bod yn hyrwyddo ei rôl fel awdur ar bob cyfle, ac yn cydweithio'n agos gyda'r siopau llyfrau leol, llyfrgelloedd, ysgolion lleol ac ati. Mae hyn yn arwain at werthiant sylweddol.
- 5.10 Er nad oes yr un siop sy'n arbenigo ar lyfrau plant yng Nghymru, rhaid canmol y siopau Cymraeg am roi lle teilwng i lyfrau plant a'u parodrwydd i roi arweiniad i brynwyr sydd am gyngor. Mae rhai siopau hefyd yn frwd am gynnal digwyddiadau i ddenu plant (gweler Rhan 10 am farchnata a hyrwyddo).
- 5.11 Gan fod siopau wedi gorfod arallgyfeirio er mwyn cynnal bywoliaeth, mae mwy na gwerthu llyfrau'n digwydd mewn sawl siop. Da o beth fyddai i gyhoeddwyd feddwl am gyfleoedd sy'n codi oherwydd natur rhai o'r siopau. Er enghraifft, mae gan Awen Teifi yn

Aberteifi ddwy stafell wedi eu neilltuo i deganau fferm, a daw prynwyr o bellteroedd i brynu anrhegion o fath arbennig. Mae sgôp i lyfrau penodol gyd-fynd â'r cyfle hwn, does bosib.

- 5.12 Cafwyd canmolïaeth o'r gwasanaeth diwrnod-wedyn a ddarperir gan y Ganolfan Lyfrau, y cywirdeb a'r pacio, er y byddai'n gallu gwneud byd o wahaniaeth o dderbyn cynnyrch ar ddydd Sadwrn yn ogystal. Gofynnodd un siopwr a fyddai modd treialu ailgyflwyno hyn mewn 2 neu 3 siop lle mae'r trefi yn arbennig o brysur ar ddydd Sadwrn.
- 5.13 Nid yw'r holl siopau wedi cofrestru gyda'r Cyngor i dderbyn y taflenni gwybodaeth o flaen llaw a ddarperir gan y cyhoeddwyr ac sy'n cael eu dosbarthu'r electronig, oni bai am daflenni'r Lolfa sy'n cael eu hanfon yn uniongyrchol dros e-bost at y siopau sydd wedi cytuno i'r drefn honno. Mae modd gweld y taflenni pan fydd cynrychiolydd yn y siop gyda'i ffeil, ond weithiau mae'n gorfod bod yn broses gyflym oherwydd prysurdeb y siop. Felly ni all y siopwr fanteisio ar yr holl bwyntiau gwerthu a chysylltiadau awdur ac ati a fydd wedi eu nodi ar y daflen. Dylid cysylltu o'r newydd â'r siopau llyfrau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwasanaeth.
- 5.14 Mae gan lyfrwerthwyr syniadau gwerthfawr am gyhoeddiadau newydd ond maent yn teimlo'n bell oddi wrth y bobl sy'n gwneud penderfyniadau comisiynu. Mater o hap a damwain yw'r cyfle i gynnig syniadau – yn dibynnu ar drafodaeth anffurfiol yn yr Eisteddfod neu ar bwy sy'n digwydd galw yn y siop neu'n cynnal digwyddiad lansio yno ac ati. Petai modd ffurfiol'r broses o gyfrannu syniadau, gellid sicrhau fod syniadau masnachol yn cael ystyriaeth gan y rhai sy'n gallu gwneud penderfyniadau.
- 5.15 Dywedodd mwy nag un siopwr y byddai'n croesawu arweiniad ar lyfrau i blant, gan fod yr arbenigedd a ddatblygwyd hyd yma wedi datblygu fesul tipyn, yn seiliedig ar brofiad lled gyfyng unigolyn yn gweithio mewn un man, a chyda chyfrifoldeb am bob math o gynnyrch.

6. Safbwynt Awduron

- 6.1 Er mai dim ond pedwar awdur a holwyd yn benodol ar gyfer yr adroddiad hwn, roedd y neges ganddynt am yr hyn sydd angen ei newid yn glir iawn, ac yn un y byddai dyn yn ei ddisgwyl: maent am dderbyn ffioedd gwell a mwy o sylw.
- 6.2 I ddechrau ar nodyn cadarnhaol, mynegodd yr awduron i gyd werthfawrogiad o'r profiad o gyhoeddi, gan farnu bod y gofal golygyddol a gawsant yn dda. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu cymhelliad wrth ddewis ysgrifennu i blant, dywedodd pob un ohonynt bod uchelgais greadigol ar dop y rhestr. Nodwyd ffactorau eraill hefyd: y ffaith eu bod yn mwynhau; eu bod yn gweld angen penodol am ddeunydd Cymraeg o fath arbennig; eu bod yn cael gwahoddiad neu gomisiwn; eu bod yn cael ymateb da gan blant; eu bod yn hoff o gyfrwng penodol, megis stori-a-llun; eu bod am weithio gydag arlunydd arbennig; eu bod wedi gweithio ar ddarpariaeth o fath arall i blant ac wedi magu hyder a phrofiad.
- 6.3 Nododd pob un nad oedd y ffioedd a gynigir am waith gwreiddiol yn rhai teg. Fel arfer telir yr un ffi am waith gwreiddiol ag a geir am addasu gwaith rhywun arall i'r Gymraeg, felly mae'r awduron yn gweld y gymhariaeth yn dibrisio dawn greadigol awdur. Mae hefyd yn amhosib ennill bywoliaeth os nad oes mathau eraill o waith hefyd ar gael, megis ysgrifennu i'r cyfryngau.
- 6.4 Yn ddiweddar, penderfynodd Bethan Gwanas godi'r mater o ffioedd gyda'r adran gomisiynu deunydd, AdAS, a bu'n ymgynghori ag awduron eraill er mwyn ysgrifennu ar ran grŵp cyfan o awduron. Yn Atodiad (iii) gwelir y llythyr at Ann Evans, Pennaeth Cangen Comisiynu Adnoddau, Uned y Gymraeg mewn Addysg, Yr Adran Addysg a Sgiliau (AdAS), Llywodraeth Cymru. Yn yr ateb a gafodd yr awduron i'w cais, dywedwyd nad oedd modd dylanwadu ar brisiau mewn tendrau cystadleuol, felly nid oedd unrhyw addewid o newid. Er mai AdAS oedd targed yr awduron ar y pryd, yr un math o ffioedd

sydd ar gael trwy gynlluniau'r Cyngor Llyfrau hefyd, a hynny am fod cyhoeddwy yn ceisio taenu'r menynd mor denau â phosibl wrth ddefnyddio cyllideb comisiynu Cynllun B.

- 6.5 Pur anaml y gwneir cais am arian Cynllun A er mwyn comisiynu gwaith ar gyfer plant gan awdur oherwydd fod y llyfrau plant lawer y fyrrach na llyfrau oedolion fel arfer. Pan fydd nofel wedi ei bwriadu ar gyfer yr arddegau, mae hynny'n wahanol, am fod modd cyfri'r deunydd yn yr un categori â theitlau i oedolion. Golyga hyn fod swm go fach yn cael ei gynnig am, dyweder, nofel swmpus, uchelgeisiol i ddarllenwyr 10-12 oed, ond bydd ffi gwell ar gael ar gyfer nofel i ddarllenwyr hŷn.
- 6.6 Dywedodd mwy nag un awdur ei fod yn gweld diffyg parch tuag at ysgrifennu i blant ymhlith pobl lengar. Mae'n siŵr fod y gwahaniaeth yn y ffioedd yn cyfrannu at y teimlad hwn.
- 6.7 Gan fod yr awduron a holwyd yn enillwyr Tir na n-Og roeddent yn medru sŷn am yr hwb roedd ennill wedi ei roi iddynt. Serch hynny, nid oeddent yn gweld fod gwaith yr enillydd yn cael digon o sylw ac y dylid ystyried hyn wrth drefnu'r gystadleuaeth.
- 6.8 Mae awduron Cymraeg yn gyffredinol yn wael iawn am hyrwyddo eu hunain. Dynaid yn unig sydd â gwefan, ond bydd ambell un yn trydar. Dechreuodd Bethan Gwanas flog newydd ym mis Tachwedd 2013 wedi ei anelu at ddarllenwyr ifanc, ac mae ei brwdfrydedd *fel darllenydd* yn heintus. Bydd rhai o'r cyhoeddwy yn rhoi manylion am awduron ar eu gwefannau a cheir disgrifiadau ar wefan Llenyddiaeth Cymru. Ond nid yw'r manau hyn yn gyffrous i blant. Cymharwch bod â dim byd ar-lein i'r hyn sydd gan awduron eraill, cyfarwydd i ni yng Nghymru, a hynny heb ormod o fuddsoddiad.

Malachy Doyle: <http://www.malachydoyle.com/mdpage1.html>

Jackie Morris: <http://www.jackiemorris.co.uk/blog/>

Berlie Doherty: <http://www.berliedoherty.com/>

- 6.9 O gofio fod y gweisg yn chwilio am awduron newydd yn gyson, mae'n destun pryder nad oes llwybr amlwg ar gael i ddarpar-awduron. Prin iawn yw'r cyfleoedd i ddysgu'r grefft. O bryd i'w gilydd cynhelir cwrs yng Nghanolfan Tŷ Newydd, Llanystumdwy i awduron sydd am ysgrifennu i blant. Cynhaliwyd cwrs yno ym mis Tachwedd 2013, dan ofal Angharad Tomos. Cyn hynny, ni fu cwrs ers Chwefror 2012 pan gynhaliwyd penwythnos ar addasu/cyfieithu llyfrau Cymraeg i Blant (dan nawdd Cymdeithas Cyhoeddwyr Cymru a'r Gyfnewidfa Llen), gyda Mererid Hopwood yn brif diwtor. Mewn blynyddoedd a fu, cynhaliwyd cyrsiau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ddarpar-awduron a chan Adran Addysg y Llywodraeth (neu ACCAC ar y pryd) i bobl oedd am fentro ysgrifennu deunydd darllen ar gyfer dysgwyr yn y sector uwchradd. Cyhoeddwyd tipyn o'r gwaith a gynhyrchwyd ar y cwrs wedi hynny yn y gyfres Sbectol Inc (Gomer). Ers degawd a mwy, nid oes unrhyw asiantaeth na sefydliad heblaw am Tŷ Newydd wedi cynnig y fath gwrs preswyl.
- 6.10 Yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, cynigir modiwl 'Llenyddiaeth Plant' fel dewis i israddedigion. Dysgir y cwrs gan Siwan M Rosser sydd hefyd wedi dechrau blog newydd am lenyddiaeth plant, y cyntaf o'i fath. Gweler: <http://llynyddiaethplant.wordpress.com/>. Does dim sicrwydd y bydd y rhai sy'n dilyn y modiwl yn ymddiddori mewn creu deunydd eu hunain, ond mae'n beth iach bod y grefft yn cael eu hastudio.
- 6.11 Am flynyddoedd lawer bu'r Cyngor Llyfrau'n cynnal Cynhadledd Llyfrau Plant bob blwyddyn, a soniodd sawl person a holwyd am y dylanwad a gafodd rhai o'r siaradwyr ar y gynulleidfa o awduron, llyfrgellwyr ac athrawon oedd yn mynychu'r cwrs preswyl. Mae gan yr awduron a holwyd awydd i weld rhywbeth tebyg yn cael ei drefnu, gan dderbyn mai cynhadledd diwrnod yn unig fyddai'n ymarferol ac yn rhesymol erbyn heddiw. Byddai trafodaeth ar y grefft o ddal dychymyg plant a saernïo'r deunydd yn ddifyr iawn, yn enwedig i awduron newydd nad ydynt erioed wedi cael y fath brofiad.

- 6.12 Yn y rhaglen o gyrsiau a drefnir gan bapur newydd y *Guardian*, ceir Guardian Masterclass yn weddol reolaidd ar ysgrifennu ar gyfer plant. Yr Hydref diwethaf roedd y cwrs canlynol yn cael ei gynnal ddwywaith: 'Guardian Masterclass: How to write for children' – a'r is-deitl: 'How to write stories to fascinate and entertain the toughest audience in literature'. Mae rhai o'n golygyddion hefyd yn awduron llyfrau plant: a fyddai mynychu cwrs o'r fath yn fuddiol i'r ddau rôl?
- 6.13 Efallai y byddai awduron plant yn elwa o gadw mewn cysylltiad a rhannu profiadau. Nid oes llawer o strwythur i hyn yng Nghymru a byddai'n dda petai ffordd well o rwydweithio. Mae amryw grwpiau ar gael yn Lloegr, fel y Picture Book Den, safle blogio lle mae awduron ac arlunwyr yn postio profiadau:
<http://picturebookden.blogspot.co.uk/>
- 6.14 Mae gan Llenyddiaeth Cymru beirianwaith mentora. Fodd bynnag, hyd yma nid oes unrhyw awduron plant wedi bod yn rhan o'r cynllun. Dros y ddegawd ddiwethaf, prin iawn hefyd yw'r awduron sydd wedi derbyn ysgoloriaeth gan Llenyddiaeth Cymru i ysgrifennu ar gyfer pobl ifanc – dim ond Delyth George ac Arwel Vittle sydd wedi cael (y ddau yn awduron llyfrau i oedolion hefyd ac yn perthyn i gylch o awduron sy'n cyfathrebu'n rheolaidd). Does neb wedi derbyn ysgoloriaeth i ganolbwyntio ar lyfrau Cymraeg i blant ifancach.
- 6.15 Dechreuodd Bethan Gwanas swydd newydd fel Cyfaill Darllen (y 'Patron of Reading' Cymraeg cyntaf) ym mis Rhagfyr 2013. Fe'i gwahoddwyd gan Ysgol Llanrhaeadr yng Nghinmeirch, Sir Ddinbych. Mae'n gynllun cyffrous lle mae awdur penodol yn mabwysiadu ysgol ac yn cynnal y diddordeb mewn llyfrau mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Gobeithio y daw cyhoeddusrwydd yn sgil buddsoddiad Bethan ac y bydd y syniad yn lledaenu'n gyflym. Gweler <http://www.patronofreading.co.uk/>

7. Safbwynt Athrawon

- 7.1 Cynhaliwyd trafodaethau manwl gydag athrawon mewn nifer o ysgolion cynradd a gwelir ‘astudiaethau achos’ yn Atodiad (iv). Barn yr athrawon a geir y tro hwn, a phetai prosiect ymchwil mwy uchelgeisiol yn bosibl yn y dyfodol, byddai’n braf iawn cynnal trafodaethau gyda grwpiau o blant hefyd.
- 7.2 Ni fu’n bosib cynnal trafodaethau mewn ysgolion uwchradd ar gyfer yr adroddiad hwn ond mae angen dybryd am farn darllenwyr ifanc er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau. Bydd cwmni Rily’n ymwneud yn gyson ag ysgolion lleol. Bydd y cyhoeddwyr eraill sy’n ymgymryd â phrosiectau AdAS hefyd yn cysylltu ag ysgolion er mwyn treialu deunydd, gan fod hynny’n rhan o’r broses sy’n ofynnol. Fodd bynnag, yr un yw’r tueddiad: barn athrawon ar ran y disgyblion a geir yn aml iawn, felly nid oes prawf bob tro fod y cyfathrebu wedi llwyddo i fynd at lygad y ffynnon. Dywedodd Atebol a’r Lolfa eu bod mewn cysylltiad â phobl ifanc parthed eu llyfrau Saesneg, gan fod hynny’n rhan o’r cytundeb wrth fentro i’r maes, ac maent yn cael y profiad yn werthfawr. Nid yw hyn yn digwydd mor rheolaidd yng nghyd-destun llyfrau Cymraeg, er y dylid cofio fod nifer o awduron yn ymweld ag ysgolion yn gyson ac yn cael adborth gan y plant yn y ffordd honno.
- 7.3 Mewn sgwrs â swyddog ysgolion Cyngor Llyfrau Cymru, Shoned Davies, nodwyd bod cryn ddiddordeb ymhlith athrawon a llyfrgellwyr ysgolion uwchradd mewn cyfresi newydd, gyda thipyn o archebion yn dod ar hyn o bryd am deitlau cyfres Melit (y Lolfa) a theitlau newydd y gyfres Pen Dafad (y Lolfa). Er gwaetha prinder arian, mae’n amlwg bod modd dod o hyd i gyllid os yw’r cynnyrch yn ateb gofyn yr athrawon. Roedd hi’n rhybuddio fod yr hyn oedd ar y clawr yn gallu cael cryn effaith ar benderfyniad yr athrawon: dewisodd sawl ysgol osgoi *Pedwar* gan Lleucu Roberts yn y gyfres Melit am fod y poteli ar y clawr yn tanlinellu pwysigrwydd alcoholiaeth yn y stori ac roedd

athrawon am osgoi hyn. Ategodd Shoned y ffaith fod parodrwydd awdur i ymweld ag ysgolion yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r diddordeb yn eu llyfrau: enwodd Bethan Gwanas a Gwenno Hughes fel esiamplau. [Pan ddaeth arian ychwanegol ar gyfer llyfrau i gyfeiriad yr ysgolion ar ddechrau 2014, dangosodd athrawon frwdfrydedd o'r newydd. Nododd Shoned fod sylwadau positif yn cael eu gwneud am ba mor gyfoes a deniadol oedd y llyfrau erbyn hyn - a chlywyd y gair 'cŵl' yn aml iawn.]

- 7.4 Mae'r toriadau yng ngwariant yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn bendant yn cael dylanwad ar ysgolion, a hynny mewn sawl ffordd wahanol. Mae'r gyllideb sydd ar gael ar gyfer darllen yn llai am fod gofynion eraill (prynu offer technoleg gwybodaeth yn un amlwg) yn cael blaenoriaeth. Mewn sawl ardal o Gymru mae'r gwasanaeth Llyfrgell i Ysgolion wedi ei gwtogi neu wedi diflannu. Mewn ardaloedd eraill mae manteisio ar wasanaethau megis llyfrgell addysgol ac ati'n dibynnu ar dalu 'aelodaeth' neu ffi am lefel o wasanaeth gan awdurdod lleol, a bydd rhai ysgolion yn gorfod dewis peidio â buddsoddi yn y modd hwn, oherwydd blaenoriaethau eraill. Er enghraifft, dyma sut mae'r gwasanaeth yn gweithio yn ardal Castell Nedd a Phort Talbot trwy gyfrwng canolfan ELRS, Education Learning Resource Service (nid yw'r manylion ar gael yn Gymraeg ar y wefan):

Full Time Equivalent (FTE) teachers based in schools **which have a Service Level Agreement** (SLA) with ELRS may borrow the following resources:

- 1 Project loan per FTE teacher per term (maximum 30 items)
- 1 Literacy loan per FTE teacher per term - fiction but can include non-fiction on request (maximum 30 items)
- 4 Realia items per FTE teacher for up to 4 weeks
- 4 Video/Cassettes/DVD per FTE teacher for up to 2 weeks

- 7.5 Dywedodd Shoned Davies fod galw mawr am lyfrau darllen Cymraeg ail-iaith i'r oed cynradd ac uwchradd fel ei gilydd. Mae'n faes mor fawr mae'n anodd credu na fyddai'n

fuddiol i gyhoeddwr gydio ynddo, gan gydweithio gydag arbenigwyr addysgol yn y siroedd.

8. Yr Adran Addysg a'r Fframwaith Llythrennedd

8.1 I lawer o blant, yr ysgol yw'r man lle byddant yn gweld llyfrau Cymraeg am y tro cyntaf, ac efallai mai'r ysgol yw'r *unig* le i rai plant ddod ar draws llyfrau Cymraeg – os ydynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg neu gartrefi lle nad yw llyfrau'n cael eu prynu na'u benthyca. Felly mae'r modd y bydd ysgolion yn cyflwyno llyfrau a phrofiadau darllen yn allweddol i agwedd plant wrth iddynt aeddfedu. Yn y trafod gyda'r athrawon gwelwyd rhywfaint o'r amrywiaeth sydd yn y dulliau cyflwyno ac yn yr ymateb a geir gan blant.

8.2 Un datblygiad diweddar y mae'n rhaid edrych arno a cheisio rhagweld beth fydd ei ddylanwad yw'r Fframwaith Llythrennedd. Ers Medi 2013 mae iddo statws statudol a disgwylir i athrawon weithredu'r hyn sydd ynddo a pharatoi plant ar gyfer y profion darllen a gynhelir bob blwyddyn.

8.3 Er nad yw athrawon ar y cyfan wedi derbyn y canllawiau a'r hyfforddiant a fwriedir eto, mae tipyn o ofid yn eu plith am oblygiadau'r fframwaith. Er fod llyfrau'n cael eu crybwyll, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar lle mae dysgu dal llyfr ac ati'n cael ei nodi fel sgil, does fawr o sôn am lyfrau wedyn a does dim unrhyw bwyslais ar ddarllen er mwyn pleser. Ymhlith y sgiliau i'w mesur yn yr oed derbyn, er enghraifft, ceir: 'dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau' ond mae hefyd yn nodi: 'adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a deall eu hystyr'.

Erbyn Blwyddyn 6, mae'r sgiliau sy'n cael eu mesur i gyd yn ymwneud â thechneg.

Mae'n syndod nad oes geiriau fel 'empathi', 'adnabyddiaeth o gymeriad, cymhelliad' ac ati'n dod yn agos i bethau. Ond eto i gyd mae lle i fanylyn fel hwn: 'deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, e.e. Ces i gacen(,) siocled a chaws i de'. Mae pwyslais y fframwaith ar ddysgu sgiliau, nid ar ddarparu profiadau nag ar ystyried gwir werth y profiadau.

- 8.4 Un elfen anffodus yw'r arweiniad (o safbwynt llyfrau Cymraeg) a ddarparwyd gan Estyn fel atodiad i'r Fframwaith newydd. Cyhoeddwyd *Arweiniad Atodol Llythrennedd a Rhifedd mewn Ysgolion Cynradd* ym mis Medi 2013 ac roedd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan Estyn. Cafwyd adran helaeth ynddo lle rhestrwyd llyfrau Cymraeg 'addas' i'w defnyddio yn y dosbarth, a gwelodd athrawon a chyhoeddwyd profiadol yn syth fod 90% ohonynt allan o brint. Roedd y rhestr yn 15 mlwydd oed o leiaf. Cysylltodd nifer o unigolion i bwysu am ddileu'r rhestr a rhoi un amgen yn ei lle ac erbyn diwedd Hydref 2013 roedd yr atodiad wedi diflannu. Nid oes unrhyw ganllawiau yn y ddogfen nawr ynglŷn â pha lyfrau i'w cyflwyno i blant, felly.
- 8.5 Mae dros ugain mlynedd ers i gorff sy'n gyfrifol am gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru weithio gyda'r cyhoeddwyd i greu deunydd addysgol, yn y Gymraeg yn bennaf ond gyda pheth pwyslais ar adnoddau Cymreig yn yr iaith Saesneg. Nid oes lle i fanylu ar yr hanes, wrth i gyrff gael eu cyfuno a'u hailenwi, ac wrth i flaenoriaethau newid, ond rhaid pwysleisio fod gweithgarwch yr adran a adwaenir erbyn hyn fel y Gangen Gomisiynu o fewn Uned y Gymraeg mewn Addysg wedi bod o bwys mawr i nifer o'r cyhoeddwyd dros y degawd diwethaf o leiaf. Cyhoeddwyd nifer fawr o lyfrau uchelgeisiol o ganlyniad i'r nawdd, gan gynnwys ffuglen, barddoniaeth, llyfrau ffeithiol, gemau a theganau, yn ogystal â chynnyrch addysgol pur. Byddai'n anodd iawn i brynwr weld y gwahaniaeth rhwng cynnyrch 'hamdden' a llawer o'r pethau deniadol a difyr a gyhoeddwyd dan nawdd AdAS, ond fel y nodwyd eisoes nid yw hynny o wahaniaeth i'r prynwr.
- 8.6 Bydd llawer iawn o ddeunydd darllen yn dal i gael ei gyhoeddi bob blwyddyn fel rhan o brosiectau AdAS, gan fod prosiectau'n cymryd hyd at dair blynedd, a weithiau mwy o amser hyd yn oed na hynny, i'w cwblhau, felly mae gennym waddol prosiectau 2010-11 yn dal i gael eu cyhoeddi. Ymddangosodd set o dendrau newydd ym mis Hydref 2013, a hynny am y tro cyntaf ers 18 mis. Cyn hynny, byddai set helaeth o fanylebau yn cael eu rhyddhau ddwywaith y flwyddyn, ond cafwyd cyfnod o oedi rhwng Tachwedd 2011 a Hydref 2013. Un rheswm am hyn oedd y ffaith nad oedd y broses o gynnig am

le yn y fframwaith tendro ddim yn caniatáu cais trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu Cwllwm Cyhoeddwr Cymru ymhlith y rhai a fynegodd eu hanfodlonrwydd ar y sefyllfa. Ar yr un pryd, roedd AdAS yn aros i HWB Cymru gael ei sefydlu, sef gwefan adnoddau i athrawon i ddisodli GCaD Cymru.

8.7 Nid gwerthiant yr adnoddau ond *defnydd* o'r adnoddau sy'n bwysig i AdAS, felly gwelir yn y manylebau cyfredol fod llawer o'r prosiectau a gynigir yn rhai a fydd yn darparu deunydd am ddim i ysgolion, trwy gyfrwng HWB Cymru. Mae pwyslais mawr y tro hwn ar ddeunydd digidol o bob math, sy'n cysylltu â'r pwyslais yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O gofio fod 12 cwmni yn y fframwaith dendro, mae'n debyg na fydd llawer o brosiectau llyfrau 'print' ar gael i unrhyw gwmni. Bydd goblygiadau i nifer o'r tai cyhoeddi, yn enwedig rhai sy'n ddibynnol iawn ar waith AdAS, fel Canolfan Astudiaethau Addysg Aberystwyth. Dywedodd y Cyfarwyddwr, Lynwen Jones, bod arallgyfeirio yn bwnc trafod pwysig ar hyn o bryd.

8.8 Mewn sgwrs gydag Ann Evans, Pennaeth y Gangen Gomisiynu, trafodwyd dwy broblem sylfaenol o safbwynt y cynnyrch sy'n cael ei gyhoeddi gyda nawdd AdAS. Y cyntaf yw marchnata. Dangosodd astudiaeth ddiweddar fod cryn anwybodaeth am adnoddau ymhlith athrawon. Dim ond yn ddigidol y mae'r adran yn medru dwyn sylw at gyhoeddiadau bellach gan nad oes catalogau. Yn awr, trwy e-lythyr bob pythefnos y maent yn medru gwneud datganiadau, ond maent hefyd yn postio newyddion am gyhoeddiadau newydd ar Facebook a Twitter. Trwy'r un e-lythyr hefyd y byddant yn gwahodd athrawon i gynnig syniadau am gyhoeddiadau sydd eu hangen; nid yw'n syndod clywed fod yr ymateb wedi lleihau'n sylweddol ers mabwysiadu'r dull hwn o wahodd trafodaeth. Yn y gorffennol, cynhelid cyfarfodydd er mwyn ymgynghori a blaengynllunio. Dywedodd Ann Evans bod dulliau o adnabod anghenion yn rhywbeth y bydd y Gangen Gomisiynu'n ystyried o'r newydd wrth iddynt adolygu eu prosesau.

8.9 Yr ail broblem a nodwyd gan Ann Evans yw diffyg cyllid yn yr ysgolion. Hyd yn oed ar ôl dod i wybod am ddeunyddiau newydd, yn aml nid yw ysgolion yn medru fforddio eu

prynu.

- 8.10 Trafodwyd y symud pwyslais tuag at ddeunydd digidol sydd i'w weld yn y casgliad cyfredol o fanylebau. Dywedodd Ann Evans fod y paneli pwnc yn ystyried y fframwaith llythrennedd ynghyd â gofynion eu maes arbennig hwy wrth bennu blaenoriaethau a datblygu manylebau. Daw'r galw am ragor o ddeunydd digidol yn y Gymraeg o bob cyfeiriad, ond nododd fod llawer o'r prosiectau'n mynd i gynnwys deunydd print hefyd.

9. Safbwynt Llyfrgellwyr

9.1 Mae brwdfrydedd y llyfrgellwyr plant yn heintus ac mae'n amlwg fod eu gwybodaeth o'r maes yn un dwfn iawn. Mae'n drueni mawr nad oes yna sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng y llyfrgelloedd a'r cyhoeddwyr, er mwyn rhoi adborth a chynnig syniadau. Nid yw sgwrsio gydag unigolion ar gyfer yr adroddiad hwn wedi gwneud mwy na chrafu'r wyneb o safbwynt eu persbectif unigryw. Fel dywedodd Nia Gruffydd, Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, mae angen rhwydweithio ffurfiol, cyson yn hytrach na '*scatter-gun approach*'.

9.2 Mae dyfodol y gwasanaethau llyfrgell yn berthnasol iawn i ddyfodol llyfrau Cymraeg i blant, nid yn unig am eu bod yn brynwyr o bwys ond am eu bod mewn sefyllfa i ddylanwadu ar agwedd plant a'u rhieni a magu cenhedlaeth newydd o garwyr llyfrau.

9.3 Er nad oes gan y gweisg na'r Cyngor Llyfrau unrhyw reolaeth dros benderfyniadau awdurdodau lleol, mae modd iddynt wneud llawer i gefnogi gweithgarwch a bywiogrwydd y llyfrgelloedd a thrwy hynny eu helpu i brofi bod galw am eu gwasanaethau. Gallai nifer o bethau fod yn fanteisiol nid yn unig i'r llyfrgelloedd ond i'r gweisg hefyd: ymweliadau awduron ac arlunwyr; darparu deunydd hyrwyddo; cyfnewid gwybodaeth o flaen llaw am gynnyrch ac am ddigwyddiadau; cynnal lansiadau sy'n wahanol ac yn denu sylw'r cyfryngau. Ychydig iawn o gydweithio geir ar hyn o bryd. Dywedodd y llyfrgellwyr fod y cysylltiad gyda'r cyhoeddwyr a'r Cyngor Llyfrau wedi gwanhau erbyn hyn o gymharu â beth oedd gynt.

9.4 Ceir tipyn o amrywiaeth o sir i sir o ran y math o wasanaeth a gynigir i'r cyhoedd ac i ysgolion, ac hefyd o ran y gwariant ar lyfrau Cymraeg, a hyd yn oed yr adnoddau 'caled' megis adeiladau, cerbydau ac ati. Nid oedd yr ymchwil hwn yn caniatáu archwiliad cynhwysfawr o'r siroedd ond mae'n amlwg fod newidiadau ar droed. Gwelwyd eisoes fod newidiadau i'r gwasanaethau mewn sawl ardal yn golygu fod llai o blant yn dod i

gysylltiad â llyfrau a llai o blant yn cael y profiad o fenthycha llyfrau.

- 9.5 Pan ofynnwyd i lyfrgellwyr am eu prif ddymuniadau, gofynnwyd am weld llyfrau Cymraeg a threfniadau Cymraeg yn cystadlu'n ffafriol â'u tebyg yn Saesneg. Un esiamp o hyn oedd yn y trefniadau ar gyfer Sialens Ddarllen gwyliau'r haf. Yr Asiantaeth Ddarllen (TRA) sy'n gyfrifol am gynllunio'r ymgyrch flynyddol i ddenu plant i'r llyfrgell. Plas Braw oedd thema apelgar ymgyrch Haf 2013. Yr hyn oedd yn anffodus iawn oedd bod y deunydd hyrwyddo Cymraeg fisoedd yn ddiweddarach yn cyrraedd na'r pecynnau Saesneg. I lyfrgellydd ardal fel Llinos Davies yn sir Ddinbych, er enghraifft, oherwydd bod y deunydd Cymraeg yn hwyr yn cyrraedd, roedd yn rhaid ymweld â 26 ysgol yn y pythefnos olaf cyn diwedd tymor, er mwyn denu'r plant i ymaelodi. Dylid gwneud popeth, meddai'r llyfrgellwyr, i sicrhau nad yw'r ddarpariaeth Gymraeg yn cael eu hesgeuluso yn y fath fodd. Roedd y cynllun wedi bod yn rhedeg am bythefnos cyn i rai o'r taflenni gweithgaredd gyrraedd y llyfrgelloedd.

- 9.6 Gellid dadlau mai agwedd arall ar 'gymharu'n ffafriol â'r Saesneg' yw darparu addasiadau Cymraeg, er na fyddai pawb yn cytuno â'r farn honno. Beth bynnag am hynny, mae gweld parhad o addasiadau ar frig rhestr y dymuniadau gan sawl llyfrgellydd. Maent yn falch o fedru cynnig addasiadau o lyfrau ffasiynol, poblogaidd yn Saesneg, fel bod dewis iaith yn bosibl i'r plant. Ym marn y llyfrgellwyr, mae plant yn cael eu dylanwadu gan farchnata'r cyhoeddwyr Saesneg beth bynnag, felly mae'n braf bod yr opsiwn yno i ddarllen y llyfr apelgar yn eu mamiaith yn hytrach nag yn Saesneg. Pan fydd y dewis ar gael, ceir tipyn o ddarllen ar yr addasiad Cymraeg. Dyma'r ffigurau benthyca (i) yng Gwynedd a (ii) yng Ngheredigion o 3 llyfr Saesneg poblogaidd a'r addasiadau Cymraeg.

Control number	Title	Author	Issues/ Renewals
1849671001	Danny: pencampwr y Byd / Roald Dahl	Dahl, Roald	180
0224083910	Danny the champion of the world / Roald Dahl	Dahl, Roald	83
1904357989	Dyddiadur dripsyn / Jeff Kinney	Kinney, Jeff	393
0141324902	Diary of a wimpy kid: Greg Heffley's journal / by Jeff Kinney	Kinney, Jeff	702
1845212363	Pants Henri Helynt / Francesca Simon / addasiad Elin Meek	Simon, Francesca	362
1842557246	Horrid Henry's underpants / Francesca Simon	Simon, Francesca	170

Ceredigion

Pants Henri Helynt: 15.5

8 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 124 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 15.5 gwaith y copi

Horrid Henry's Underpants: 21

7 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 150 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 21 gwaith y copi

Dyddiadur Dripsyn: 6

5 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 32 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 6 gwaith y copi

Diary of a Wimpy Kid: 11

6 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 67 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 11 gwaith y copi

Danny Pencampwr y Byd: 5

4 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 23 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 5 gwaith y copi

Danny Champion of the World: 25

10 copi rhwng y canghennau – y copïau wedi'u benthycu 251 o weithiau ers eu derbyn – cyfartaledd o 25 gwaith y copi

(Rhaid cofio fod Danny Champion of the World wedi'i gyhoeddi yn Saesneg flynyddoedd lawer cyn y fersiwn Gymraeg, felly mae hyn yn ffactor i'w gofio wrth ystyried y gwahaniaeth rhwng maint y benthyciadau.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddwy sir hefyd yn ddiddorol, wrth gwrs. Gan fod cymaint o alw am ddeunydd Cymraeg gan blant sy'n ymweld â'r 'lori' yng Ngwynedd, mae mwy o ddeunydd Cymraeg na Saesneg yn cael eu stocio a'i brynu, a dyna gylch cadarnhaol wedi ei sefydlu. Mae'r gwariant o fewn y gwasanaeth llyfrgell ar lyfrau Cymraeg i blant wedi cynyddu'n ddiweddar ac ar hyn o bryd does dim bygythiad i'r gwasanaethau yng Ngwynedd.

- 9.7 Roedd llyfrgellwyr hefyd yn cydnabod nad oedd rhai addasiadau ar gyfer yr oed hŷn wedi profi'n boblogaidd, megis cyfres Artemis Gwarth, Harry Potter yn Gymraeg (er rhaid cofio fod hwn wedi gwerthu'n dda iawn), ambell deitl fel *Tyllau*, clasur Louis Sachar, a *Fframio*, addasiad o nofel Frank Cottrell Boyce, *Framed*. Efallai mai poblogrwydd y deunydd gwreiddiol yw'r broblem, a'r ffaith bod y straeon wedi dod yn adnabyddus iawn ymhell cyn i fersiwn Gymraeg ymddangos. Mae'n amlwg fod yn rhaid dethol yn ofalus wrth fynd ati i ddarparu addasiadau. Soniwyd hefyd am addasu clogyrnaidd ar adegau a'r defnydd o eiriau anghyfarwydd, ynghyd â chamgymeriadau. Ar y llaw arall, disgrifiwyd ambell addasiad fel un 'gwyach' – *Ceffyl Rhyfel*, Michael Morpurgo, addasiad Casia Wiliam, Carreg Gwalch, er enghraifft.

- 9.8 Soniwyd am bwysigrwydd ffasiwn mewn diddordebau pobl ifanc, a phwysigrwydd astudio hwnnw'n ofalus wrth ddewis pa lyfrau i'w haddasu i'r Gymraeg – gan gydnabod fod pethau'n gallu newid yn gyflym iawn. Am sawl blwyddyn bu llyfrau *Twilight* a fampirod eraill o bob math ar frig siartiau benthyca, a doedd dim byd ar gael yn y Gymraeg o gwbl i'w gynnig i ddarllenwyr oedd yn chwilio am ragor o'r un peth! Ymddengys fod y math hwn o lyfrau yn llai poblogaidd erbyn hyn er nad ydynt wedi diflannu o bell ffordd.

- 9.9 Crybwyllwyd ymweliadau awduron plant fel profiadau gwerthfawr a dylanwadol iawn. Bydd Llyfrgell Sir Gwynedd yn gwneud llai o ddefnydd o'r cynllun Awduron ar Daith erbyn hyn gan eu bod wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar sioe deithiol Hei Hogia.

Gwelsant y diddordeb yn y llyfrau roedd yr actorion yn eu darllen yn y sioe yn cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r fentr.

- 9.10 Ymhlith y digwyddiadau eraill bydd llyfrgelloedd yng Ngwynedd yn eu cynnal ceir Amser Stori wythnosol /bob pythefnos/ yn fisol, yn dibynnu ar faint y llyfrgell a'i lleoliad. Yng Nghaernarfon ceir Clwb Babis ar fore Sadwrn! Mewn rhai siroedd, fel sir Gaerfyrddin, does dim gweithgareddau i blant yn cael ei cynnal o gwbl yn y llyfrgell. Mae'r gwasanaeth llyfrgell i ysgolion hefyd wedi peidio â bod yn y sir honno. Felly mae amrywiaeth sylweddol ar draws Cymru ac mae'n siŵr fod angen arweiniad ar gyhoeddwr o safbwynt y potensial. Lle mae fframwaith a staff profiadol i gynnal digwyddiadau, mae cyfle i gyhoeddwr weithio mewn partneriaeth. Lle nad oes cyfundrefn barod, byddai'n wastraffus o ran amser ac ymdrech i gyhoeddwr geisio trefnu cynulleidfa. Eto, petai sianel gyfathrebu glir rhwng un sector a'r llall, byddai'n dod yn amlwg ble mae cyfle i gydweithio'n effeithiol er lles y fasnach ac er lles y gwasanaeth ei hun.

38

- 9.11 Cafwyd sylwadau manwl gan y llyfrgellwyr a holwyd am yr hyn sy'n boblogaidd ac am fylchau yn y ddarpariaeth. Mae'r farn yn syndod o debyg i'r hyn a glywyd gan y llyfrwerthwyr. Yn gyffredinol, canmoliaeth a gafwyd i'r ddarpariaeth hyd at 7 oed. Mae nifer o'r cyfresi rhwng 7-9 yn plesio'n fawr ac yna i ddarllenwyr oed 9+ mae llai o ddewis a llai o lyfrau'n cael eu canmol gan ddarllenwyr. Erbyn i blant gyrraedd 12 oed, mae'r mwyafrif wedi newid iaith a dim ond llyfrau Saesneg y byddant yn eu benthycu, gydag ambell eithriad poblogaidd.
- 9.12 Wrth edrych ar lyfrau gwreiddiol Cymraeg i'w cymharu ag addasiadau, dywedwyd fod diwyg a safon cynhyrchu wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd. Serch hynny, mae enghreifftiau o gloriau sobr o wael i ddarllenwyr 9+ yn enwedig, gyda dylunwaith a broliannau di-fflach.

- 9.13 Dywedodd sawl llyfrgellydd fod gallu ieithyddol plant yn golygu fod llyfrau a fwriadwyd ar gyfer eu hoed yn llawer rhy anodd iddynt. Awgrymodd Sioned Jaques, llyfrgellydd gwasanaeth y gogledd-ddwyrain, y gellid anelu at iaith 'niwtral' mewn mwy o deitlau, gan fod adborth yn dod o'r llyfrgell deithiol fod iaith llyfrau i blant yn rhy ddeheuol.
- 9.14 Yr oedd y llyfrgellwyr yn awyddus iawn i'r Cyngor ystyried cynnwys plant mewn cynllun cysgodi ar gyfer gwobrau Cymraeg Tir na n-Og. Bu treialu ar gynllun cysgodi yn achos y rhestr fer Saesneg mewn tair ardal yn 2011 a 2012, ond nid y llyfrau Cymraeg. Daeth y peilot i ben yn sgil cwtogi ariannol gan na fu'n bosib i'r Cyngor gyflenwi'r llyfrgelloedd gyda chopïau o'r cyfrolau ar y rhestr fer. Roedd y llyfrgellwyr yn awyddus iawn i'r Cyngor ailgyflwyno'r cynllun a fyddai'n fodd i sicrhau mwy o sylw i'r gwobrau ac i'r enillwyr.

10. Marchnata a Hyrwyddo Llyfrau Cymraeg

- 10.1 Yn y trafodaethau gyda'r cyhoeddwyr, nododd pob un yr angen am farchnata gwell. Roedd y gweisg i gyd yn ymwybodol nad oeddent yn gwneud digon eu hunain ac roeddent yn gweld y gwaith o ledaenu ymwybyddiaeth o'u cynnyrch yn fynydd anferth i'w ddringo.
- 10.2 Dymuniad y cyhoeddwyr yw cael staff ychwanegol i ymgymryd â marchnata a hyrwyddo. Maent yn dal i obeithio y daw nawdd tuag at swyddi.
- 10.3 Does dim amheuaeth am ymroddiad pobl ym mhob sector o'r maes llyfrau plant. Mae'n fyd sy'n llawn o lysgenhadon sydd wrthi'n cyflawni gwyrthiau ac sy'n barod iawn i fynd y filltir ychwanegol. Nid yw'n hawdd awgrymu gwelliannau i'r hyn sy'n digwydd heb wneud buddsoddiad mawr. Yn yr hinsawdd bresennol, rhaid wynebu'r tebygrwydd nad buddsoddi ond yn hytrach ailflaenoriaethu fydd y gân.
- 10.4 Cafwyd Blwyddyn Ddarllen nôl yn 1998-9, ac apwyntiwyd hyrwyddwr cenedlaethol penigamp yn Rhiannon Lloyd. Am unwaith, roedd straeon am lyfrau ac am ddarllen yn cael sylw yn y cyfryngau. Nid oes unrhyw arwydd o fuddsoddiad tebyg ar y gorwel.
- 10.5 Trefnir digwyddiadau unigol o bob math gan gyhoeddwyr, llyfrgelloedd, siopau llyfrau, hyrwyddwyr llenyddiaeth ac awduron eu hunain. Mae angen astudiaeth drylwyr o beth sy'n gweithio orau ac yn arwain at y gwerthiant gorau.
- 10.6 Byddai'n dda 'clywed' yn ddigidol am ddigwyddiadau plant trwy gyfrwng llais llai swyddogol, efallai, na phrif draethydd tudalen Facebook a Twitter y Cyngor Llyfrau. (Gall yr un person wneud, wrth gwrs, ond gydag enw a rôl arall.) Petai cylchgrawn

digidol am lyfrau plant ar gael, gallai hwnnw fod yn drydarwr yn defnyddio enw pwrpasol e.e Pori (efallai bod atgyfodi'r enw'n gam rhy sentimental!) Ni fyddai neb yn disgwyl i bobl deithio o un pen i Gymru i'r llall i sesiwn stori neu weithdy paentio gydag arlunydd llyfrau i blant, ond mae sôn amdanynt yn medru creu cyffro a thanio awydd i efelychu'r digwyddiad yn rhywle arall. Ac mae'r cyfan yn gyhoeddusrwydd i'r llyfrau a'r awduron.

10.7 Mae diffyg gwefannau i blant ac am lyfrau i blant yn ffaith y mae'n rhaid ei hwynebu. Does ond gobeithio y medr hiwmor, egni a bywiogrwydd ar gyfryngau rhwydweithio cymdeithasol wneud yn iawn am y diffyg. Ond ar hyn o bryd, nid oes gweithgarwch yn y fan honno chwaith.

10.8 Mae gan y Cyngor Llyfrau ei hun nifer o ddigwyddiadau bob blwyddyn sy'n fodd i hyrwyddo diddordeb mewn llyfrau i blant. Holwyd pobl am effaith y gwahanol ddigwyddiadau.

41

10.9 Er bod yr awduron oedd wedi derbyn gwobr Tir na n-Og yn falch iawn o'r anrhydedd, roeddynt hwythau fel y cyhoeddwyr, y llyfrwerthwyr a'r llyfrgellwyr yn teimlo bod angen hyrwyddo'r gystadleuaeth yn llawer gwell ac i sicrhau sylw i'r llyfrau ac i'r enillwyr. Nid oedd y cyhoeddwyr yn gweld fawr o effaith ar werthiant ac er bod poster i'r enillwyr yn cael eu cynhyrchu nid oedd y dosbarthu yn effeithiol, a doedd neb yn meddwl fod plant yn ymddiddori yn y cynnyrch na'r broses. Cytunai pawb bod cyfle i edrych o'r newydd ar y gystadleuaeth.

10.10 Dywedodd athrawon a llyfrgellwyr fod amseru'r Cwis Llyfrau yn ei gwneud hi'n anodd iawn i ysgolion (tymor paratoi at Eisteddfod yr Urdd!) ac mae hynny'n un rheswm dros amharodrwydd llawer o ysgolion i gymryd rhan. Dywedwyd fod y plant sy'n cael eu

paratoi i gystadlu'n cael profiadau gwerthfawr dros ben, felly byddai'n werth ymdrechu'n galed i gael trefniadau amgen. Dywedodd y cyhoeddwyr fod teitlau sy'n cael eu cynnwys yn elwa o'r sylw ac yn dangos gwerthiant uwch.

- 10.11 Mae'n braf nodi fod yna ddigwyddiadau llwyddiannus. Cynhaliwyd Noson Sgleinio'r Sêr yng Nghaernarfon, Hydref 31, 2013. Daeth y syniad yn wreiddiol o lyfr stori Mali Meipen gan Angharad Tomos. Bu siop Palas Print yn cydlynu ymgyrch gan holl siopau'r stryd i ddenu plant yn eu gwisgoedd ffansi i gwrdd â Ceridwen, yn ysbryd Calan Gaeaf go iawn yn hytrach na dilyn '*Trick or Treat*'. Yr unig broblem oedd cael lle i bawb.





- 10.12 Er bod gan gyhoeddwr deimladau cymysg am deitlau Saesneg gan eu bod yn cynrychioli cystadleuaeth enfawr, gall y cyhoeddusrwydd a geir i deitl Saesneg fod o fudd mawr i'r addasiad, gan fod y ddelwedd bositif a grëir gan y marchnata'n cael ei drosglwyddo i'r iaith arall hefyd. Felly mae'n werth i gyhoeddwr addasiad gadw golwg ar weithgaredd y cwmni gwreiddiol. Dros hanner tymor Hydref 2013, er enghraifft, bu cyfres o hysbysebion teledu ar Sky, Cartoon Network a 2 sianel arall, am y llyfr *Tom*

Gates. Gan fod clawr a diwyg yr addasiad, *Twm Clwyd* (Rily), yn union yr un peth â'r llyfr Saesneg, mae'n siŵr fod gwerth i Rily hefyd yn yr hysbysebu. Byddai'n dda petai cyhoeddwr addasiadau Cymraeg yn hysbysu llyfrwerthwyr o ymgyrchoedd mawr iawn sy'n berthnasol – petai ond yn arwain at siopwyr yn rhoi'r addasiad o 'lyfr y foment' yn y ffenest yr wythnos honno.

- 10.13 Dywedodd un cyhoeddwr y byddai'n croesawu cynllun gan y Cyngor Llyfrau lle byddai person profiadol ym maes hyrwyddo, *publicist*, yn gweithio mewn gwasg am 3-6 mis ar deitlau Cymraeg i blant, wedyn yn symud ymlaen i ddarparu gwasanaeth i wasg arall. Cynigiodd hyn fel ail ddewis, os na fydd arian ar gael yn y dyfodol agos i swyddi marchnata/hyrwyddo yn y gweisg. Gallai'r hyrwyddwr osod systemau yn eu lle: creu cynllun a strategaeth farchnata i deitl unigol neu gyfres; defnyddio'r rhwydweithiau cymdeithasol; gwneud defnydd pwrpasol o'r wefan neu flog; dangos sut i fwydo straeon difyr i fathau gwahanol o gysylltiadau. Byddai gan wasg gyfle wedyn i fabwysiadu arferion da a pharhau'r ymdrechion eu hunain wedi i wasanaeth yr hyrwyddwr symudol gael ei gynnig i wasg arall. Awgrym y cyhoeddwr oedd y gallai'r fath gynllun gael ei ariannu yn lle'r gwariant presennol ar gwmni marchnata/hyrwyddo allanol.

11. Gwerthiant Llyfrau Saesneg i Blant

11.1 Mae'n amlwg fod llyfrau i blant yn gallu bod yn werthwyr mawr, mawr! Y rhediad argraffu ar gyfer yr wythfed llyfr yng nghyfres Jeff Kinney, *Diary of a Wimpy Kid*, oedd 800,000 copi. Yn wir fe wnaeth y llyfr, *Hard Luck* (Puffin), a ymddangosodd ar 6 Tachwedd 2013 dorri'r record am y rhediad argraffu mwyaf erioed i Penguin ei wneud o deitl i blant. Does ryfedd fod y fersiwn Cymraeg hefyd yn werthwr da iawn – mae dros 4,000 o gopiau o'r gyfrol gyntaf yn y gyfres Dyddiadur Dripsyn (Rily) wedi eu gwerthu.

11.2 Nid ystadegydd o fath yn y byd yw awdur yr adroddiad hwn felly dim ond penawdau o'r *Bookseller* ac adroddiadau asiantaethau fel y Booksellers Association sydd y tu ôl i'r cipolwg sydyn a geir fan hyn ar werthiant llyfrau Saesneg i blant.

2010: Gwerthiant llyfrau Saesneg i blant yn y DU wedi gostwng 3.7% ers 2009

2011: Gwerthiant llyfrau plant wedi gostwng 7% ers 2010 (Publishers Association).

2012: Gwerthiant yn codi 4%. Bu 2012 yn flwyddyn lwyddiannus dros ben i gyhoeddwr yn y DU yn gyffredinol.

The Hunger Games author Suzanne Collins sold 2.1million books, and children's writer Jeff Kinney - with his *Diary of a Wimpy Kid* series - sold 1.5million books. Sales of printed children's books in the UK were up 4% to £233million, while physical sales of school books saw a rise of 6 per cent to £172million.

Publishers' Association

Yearbook 2012

[Roedd ffilm *The Hunger Games* wedi ymddangos yn yr un flwyddyn.]

2013 Nid yw'r newyddion am 2013 cystal. Ymddengys fod gwerthiant llyfrau plant wedi gostwng 8% yn hanner cyntaf y flwyddyn.

11.3 Yn y Gynhadledd ar Lyfrau Plant a gynhaliwyd gan y *Bookseller* ym mis Medi 2013, cafwyd adroddiad brawychus ar ganlyniadau ymchwil i dueddiadau ac arferion darllen plant, '*Understanding the Children's Book Consumer in the Digital Age*', a wnaed gan Nielsen Book. Dangosodd yr ymchwil fod canran cynyddol o blant nad ydynt yn cael unrhyw brofiad rheolaidd o lyfrau: '*they found a significant fall in the number of*

children who read or are read to on a weekly basis, with the proportion of occasional and non-readers among children aged under 17 now at 28%, rising from 20% in 2012.'

Yn ôl y *Bookseller*, mae awduron yr ymchwil yn gweld defnydd cynyddol o ddyfeisiadau 'tabled' yn un o'r ffactorau sydd wedi arwain at y newid dramatig a chyflym.

*The research shows that children's reading is being affected by alternative activities, such as playing games, watching videos on websites like YouTube, and texting. **During the past year, children's access to tablets more than doubled over the previous year.** The devices are being used for a range of activities, but reading is considered one of its least important uses. Only 20% of children use tablets for reading e-books, while 6% use them to read magazines and comics. Jo Henry, director at Nielsen Book, said: "This dramatic drop in engagement with reading (seen in the context of an 8% drop in the number of books bought for those aged under 17 in the first half of 2013) will give pause for thought for anyone involved in children's publishing, particularly at the older end of the market, which has seen the greatest decline."*

11.4 Mae ffactorau eraill, rhai economaidd a diwylliannol, yn effeithio ar y gwerthiant a byddai angen cymorth arbenigol i'w holrhain a'u deall, ond mae'n ddiddorol gweld nad yw'r bygythiad i lyfrau Cymraeg a'r ffigurau gwerthiant yn beth unigryw. O edrych ar y farchnad Saesneg, lle mae busnesau mawr yn pwysu a mesur yn ofalus iawn lle mae'r miliynau'n cael eu buddsoddi, mae'n siŵr fod yna wersi i gyhoeddwyr Cymraeg wrth iddynt flaenoriaethu a chynllunio eu rhaglenni cyhoeddi.

11.5 Isod gwelir Gwerthwyr Gorau (Llyfrau i Blant) dros 100 diwrnod, trwy Amazon, Hydref 28, 2013. Yn dilyn hynny, mae sylwadau ar berthnasedd hyn i'n diwydiant ni.

1. **Dear Zoo (Picture Puffin) [Paperback] – Rod Campbell**
2. **Diary of a Wimpy Kid: Hard Luck [Hardcover] – Jeff Kinney**
3. **Demon Dentist [Hardcover] – David Walliams**
4. **Minecraft: The Official Annual 2014 (Annuals 2014) [Hardcover]**
5. **Allegiant (Divergent, Book 3) [Kindle Edition] – Veronica Roth**
6. **Asterix and the Picts [Hardcover] – Jean-Yves Ferri**
7. **Minecraft: The Official Beginner's Handbook [Hardcover]**
8. **Demon Dentist [Kindle Edition] – David Walliams**
9. **Gangsta Granny [Kindle Edition] – David Walliams**
10. **The House of Hades (Heroes of Olympus Book 4) [Hardcover] – Rick Riordan**

Nodiadau ar y rhestr uchod mewn perthynas â maes cyhoeddi llyfrau Cymraeg i blant:

1. ***Annwyl Sŵ*** ar gael yn y Gymraeg ers 1993, Gwasg y Dref Wen. Ac mewn print eto ers 2009 ond fel llyfr bychan iawn.
2. 3 theitl ***Dyddiadur Dripsyn*** ar gael gan Rily Publications.
3. Dim un o deitlau David Walliams ar gael yn y Gymraeg hyd yma.
4. Nid yw'r Blwyddlyfr ar gael yn y Gymraeg ond ymddangosodd ***Llawlyfr Minecraft*** Cymraeg ar yr un pryd â'r un Saesneg, Hydref 2013 (Rily). Gweler 7 isod.
5. Cyfres o lyfrau 'Dystopian' gyda merch yn arwres. Ymgais lwyddiannus i ddal darllenwyr o ferched yn ogystal â bechgyn. Yr un gynulleidfa â *Hunger Games*, prif werthwr 2012. Dim byd tebyg ar gael yn y Gymraeg.
6. Dalen wedi cyhoeddi'r fersiwn Gymraeg, *Asterix a Gwŷr y Gogledd*, Hydref 2013.
7. Rily wedi defnyddio clawr *Minecraft* fel baner ar eu tudalen Facebook, Hydref 2013.
8. Dim David Walliams ar gael yn y Gymraeg hyd yma. Kindle o'r teitl newydd yw hwn.
9. Dim David Walliams ar gael yn y Gymraeg hyd yma. Kindle o deitl blaenorol hefyd yn perfformio'n dda o ganlyniad i'r teitl newydd.
10. Mae Heroes of Olympus yn gyfres boblogaidd, gydag aps gan Disney, gwefan soffistigedig yn cynnwys fideos, a chyfres o gemau. Fersiwn Kindle yw hwn, yn dilyn fersiynau clawr caled a meddal a fu'n llwyddiannus iawn. Percy Jackson yw'r prif gymeriad a bydd ail DVD yn seiliedig ar y gyfres yn ymddangos Rhagfyr 2013.

11.6 Gan gydnabod fod ffasiwn a chyffro o gwmpas deunydd darllen yn effeithio ar brynwyr, yn enwedig darllenwyr 9+, mae'n ddifyr gweld fod sawl cyhoeddwr Cymraeg yn defnyddio rhywbeth poblogaidd Saesneg fel bachyn, gan obeithio elwa o hynny. Fodd bynnag, mae rhai pethau poblogaidd nad oes eu tebyg ar gael yn y Gymraeg o gwbl. (Rhaid pwysleisio nad gwerthu trwy Amazon yw'r nod, ond mae'n ffon fesur ddefnyddiol!)

11.7 Mae'n werth edrych ar dabl Nielsen o werthwyr gorau 2012, y flwyddyn lwyddiannus, a gweld cyn lleied o awduron sy'n dod i frig y siartiau. Bydd cyhoeddwr Saesneg yn

godro awdur/teitl llwyddiannus mewn sawl fformat – clawr caled, meddal, e-lyfr/Kindle.

Top 20 children's books 2012


Position	Title	Author	Imprint	Volume
SOURCE: NIELSEN # Released in a previous year				
1	Hunger Games,The: Trilogy#	Collins, Suzanne	Scholastic	832,350
2	Catching Fire:Hunger Games Trilogy#	Collins, Suzanne	Scholastic	667,980
3	Mockingjay:Hunger Games Trilogy#	Collins, Suzanne	Scholastic	612,687
4	War Horse#	Morpurgo, Michael	Egmont Books	309,761
5	Diary of a Wimpy Kid:The Third Wheel	Kinney, Jeff	Puffin Books	297,451
6	Hobbit,The#	Tolkien, J. R. R.	HarperCollins Publishers	238,827
7	Ugly Truth,The:Diary of a Wimpy Kid	Kinney, Jeff	Puffin Books	224,963
8	Billionaire Boy	Walliams, David	HarperCollinsChildren'sBooks	204,351
9	Ratburger	Walliams, David	HarperCollinsChildren'sBooks	199,445
10	Mr Stink	Walliams, David	HarperCollinsChildren'sBooks	184,819
11	Diary of a Wimpy Kid: Cabin Fever:Diary of a Wimpy Kid	Kinney, Jeff	Puffin Books	174,722
12	Theodore Boone: The Abduction	Grisham, John	Hodder Paperback	168,255
13	Gangsta Granny	Walliams, David	HarperCollinsChildren'sBooks	166,188
14	Dog Days:Diary of a Wimpy Kid	Kinney, Jeff	Puffin Books	166,084
15	One Direction: the Official Annual:2013#	One Direction	HarperCollinsChildren'sBooks	158,791

Top 20 children's books 2012

Position	Title	Author	Imprint	Volume
16	Diary of a Wimpy Kid:Diary of a Wimpy Kid	Kinney, Jeff	Puffin Books	157,172
17	Last Straw,The:Diary of a Wimpy Kid	Kinney, Jeff	Puffin Books	155,573
18	Rodrick Rules:Diary of a Wimpy Kid:	Kinney, Jeff	Puffin Books	150,454
19	Boy in the Dress,The	Walliams, David	HarperCollinsChildren'sBooks	149,492
20	Beano Annual 2013		D.C. Thomson & Co.,	146,897

12. Hyrwyddo a Marchnata llyfrau Saesneg i Blant


- 12.1 Does dim dwywaith fod gan gyhoeddwr Prydeinig (a rhyngwladol) blaenllaw a llwyddiannus beiriannau marchnata a hyrwyddo soffistigedig iawn.
- 12.2 Yn Gymraeg, os byddwch yn gwgllo 'Henri Helynt', cewch chi gyfeiriad at raglen S4C, rhestr o lyfrau i'w prynu oddi ar Amazon, Gwales, Ebay, y cyhoeddwr (yn y drefn yna) ac yna'r *Radio Times* am amseroedd y rhaglenni. Dyna i gyd. Gwglwch 'Horrid Henry' ac mae byd newydd cyffrous yn agor o'ch blaen! Mae'r wefan ddeniadol yn eich gwahodd i ymaelodi â'r Purple Hand Gang, cewch gyfrannu jôcs, lluniau, newyddion; gallwch berswadio oedolion i hurio gwisgoedd Horrid Henry ar gyfer parti neu berfformiad.



Ceir lluo o weithgareddau hefyd:

HORRID HENRY

Create your own
Monster



51



What is the SCARIEST thing about your Monster?

Join the Purple Hand Gang at
www.horridhenry.co.uk
for cool competitions, awesome
activities and all the latest news!



Orion
Children's Books

The Horrid Henry books are published by Orion Children's Books
Text © Francesca Simon Illustrations © Tony Ross
Activity sheet content © Orion Children's Books

HORRID HENRY

Monster Wordsearch

G	H	O	L	G	S	T	E	I	B	M	O	Z	T
S	I	O	F	L	O	W	E	R	S	N	J	F	I
L	M	G	E	A	D	D	I	N	G	M	U	E	O
I	L	B	B	W	Q	U	E	B	N	T	G	E	Q
M	U	S	I	C	U	Y	Z	E	A	F	R	T	M
E	S	B	R	X	I	K	A	D	F	V	A	U	U
H	S	O	D	O	V	C	S	I	H	D	V	D	S
F	T	D	S	E	I	N	N	U	B	B	E	B	I
I	N	T	E	R	G	H	S	V	T	U	Y	N	C
I	E	O	X	E	J	O	K	S	F	Y	A	G	Y
D	S	N	O	S	E	V	L	O	W	E	R	E	W
N	E	M	P	L	R	T	F	B	N	C	D	L	T
R	R	K	Y	F	H	A	L	I	E	N	S	K	R
I	P	C	S	T	E	E	W	S	D	F	H	C	A

Horrid Henry loves scary stories full of monsters and slime, but Peter prefers tales about bunnies. Can you find the words Henry and Peter would use in their sleepover stories?

SLIME
FANGS
SCREAMING
WEREWOLVES
GRAVEYARDS
ZOMBIE
ALIENS

BUNNIES
PRESENTS
FLOWERS
NATURE
MUSIC
BIRDS
SWEETS

Join the Purple Hand Gang at
www.horridhenry.co.uk
for cool competitions, awesome
activities and all the latest news!



Orion
Children's Books
The Horrid Henry books are published by Orion Children's Books
Text © Francesca Simon Illustrations © Tony Ross
Activity sheet content © Orion Children's Books

- 12.3 Ond mae'r wobwr am y marchnata mwyaf egniol ym maes llyfrau plant, heb os, yn mynd i lyfrau Jeff Kinney, *Diary of a Wimpy Kid*. Yn wir, ymgyrch Puffin dros y gyfres hon enillodd brif wobwr y Book Marketing Society yn 2012 (yn curo *50 Shades of Grey*, hyd yn oed). Gellid dadlau fod economeg y fentr gyhoeddi yn gwarantu buddsoddiad mawr mewn marchnata, ond mae'n amlwg nad yw pobl marchnata Puffin yn gorffwys ar eu rhwyfau o safbwynt creu diddordeb o'r newydd wrth i'r teitl diweddaraf ymddangos. Isod, gwelir cystadleuaeth a hysbysebwyd i ysgolion trwy gyfrwng Teach it Primary, y TES ac ati.

Teach it
Primary

*With sales of 115 million copies worldwide, the **Diary of a Wimpy Kid** series is a global phenomenon. Now is your school's chance to meet the author! *Diary of a Wimpy Kid: Hard Luck* (out 6th November) sees Greg Heffley decide to make all his decisions based on luck, using the roll of a dice or a magic 8 ball. So how lucky will your school be?*

One fortunate school will win a visit from Jeff Kinney during his ***Diary of a Wimpy Kid: Hard Luck*** tour 4th – 6th December 2013 (open only to UK schools, excluding Northern Ireland).

Eight runners-up will win a visit from The Wimpy Kid Show!

For your class to be in with a chance of winning this exclusive prize, visit:

<http://www.puffinvirtuallylive.co.uk/author/competition2013> and register your school's details.

- 12.4 Er nad yw'n hawdd cymhwyso rhai syniadau uchelgeisiol i'n sefyllfa ni yng Nghymru, mae rhai gwersi i'w dysgu. Ni fyddai'n anodd trefnu cystadleuaeth debyg i hon ar draws Cymru. Fel y mae siopwyr ac athrawon wedi nodi eisoes, byddai cael Bethan Gwanas i gwrdd â'r plant yn creu cyffro. Felly hefyd yn bendant Ceridwen neu Rala Rwdins, neu rai o gymeriadau Pentre Bach megis Coblyn neu Bili Bom Bom. Byddai cysylltu'r gystadleuaeth gydag ymddangosiad teitl neu gyfres o bwys yn denu sylw pendant i'r cynnyrch ymhlith athrawon a phlant. Byddai taflen y Clwb Llyfrau, cylchgrawn yr Urdd, trafodaeth yn y cyfryngau, heb sôn am ddulliau rhwydweithio

cymdeithasol (yr awr Gymraeg ar Twitter bob nos Fercher) yn fodd i greu cyffro am y peth.

- 12.5 Awdur arall sydd ar frig siartiau gwerthiant oherwydd cyhoeddusrwydd yw David Walliams. Dyma'r manylion am ddigwyddiad allweddol cyn y Nadolig:

Children's author David Walliams will appear at the Palace Theatre in London on 7th December in what publisher HarperCollins is billing a "World of Walliams Mega Event". Walliams will read from his new book, [Demon Dentist](#), and his first picture book, The Slightly Annoying Elephant, during an evening hosted by "Britain's Got More Talent" presenter Stephen Mulhern.

Following the readings, Walliams will take part in a signing session with illustrator Tony Ross. A boutique bookshop will also be set up at the venue on Shaftesbury Avenue, selling a range of Walliams books and merchandise. Walliams has sold over 2.4m books in the UK through Nielsen BookScan, with HarperCollins putting sales of Demon Dentist, his sixth title, at 100,000 copies in the UK across print and digital editions since its release in September.

Tickets for the event are being sold at £10 apiece through www.worldofwalliams.com

54

- 12.6 Mae nifer o'r awduron Cymraeg sy'n cyhoeddi i blant hefyd yn berfformwyr: Caryl Parry Jones, Meilyr Siôn, Bethan Gwanas, Beca Evans, Jeremy Turner, Manon Steffan, Mererid Hopwood. Rwy'n siŵr fod posib meddwl am sioeau difyr? Efallai y byddai modd cydweithio gyda chwmni theatr neu gwmni perfformio i greu arlwy fyddai'n denu teuluoedd?
- 12.7 Roedd llyfr blaenorol David Walliams, *Gangsta Granny*, yn rhan o arlwy BBC1 dros Nadolig 2013, gydag actorion fel Joanna Lumley, Julia McKenzie, Rob Brydon a Miranda Hart yn actio gyda'r awdur ei hun. Mae'n amhosib cael cyhoeddusrwydd o'r un math i unrhyw lyfr yn y Gymraeg, ond byddai'n werth i gyhoeddwr neu awduron drafod gyda chomisiynydd rhaglenni plant S4C am y posibiliadau sydd yna mewn nifer o lyfrau Cymraeg i blant. Cwmni Boom Pictures (Boomerang gynt) sy'n gyfrifol am lawer o'r

cynnyrch i blant a phobl ifanc: oes trafod yn digwydd rhwng y gweisg â'r cwmni hwnnw?

- 12.8 Un corff sy'n allweddol i ymgyrchoedd darllen trwy Brydain gyfan yw'r Asiantaeth Ddarllen (The Reading Agency, TRA). Soniodd y llyfrgellwyr am bwysigrwydd y sialensau darllen a gydlynir ganddynt bob gwyliau haf (gweler 9.5). Eleni cyfrannodd y Paul Hamlyn Foundation £1miliwn i'r TRA ar gyfer ymgyrch newydd a fydd yn galluogi pobl ifanc i helpu plant iau i ddarllen, a chafodd y lansiad yn Llundain gryn sylw. Mae'n syniad gweddol hawdd i'w efelychu ac mae'n bosib y byddai sawl ysgol uwchradd yng Nghymru'n fodlon cymhwyso'r trefniadau er mwyn eu cynnwys fel gwaith gwirfoddol. Mae angen profiad o wirfoddoli ffurfiol ar bobl ifanc ar gyfer cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Mewn trafodaeth gyda phenaethiaid Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Gynradd Aberteifi, croesawyd y syniad o gael disgyblion hŷn i gyflwyno llyfrau Cymraeg i blant bach. Maent yn barod i fod yn gynllun peilot os bydd trefnyddion neu hyrwyddwyr darllen ar gael i roi'r prosiect ar waith.

55

- 12.9 Yn Saesneg, mae deunydd helaeth a difyr iawn ar y we i hyrwyddo llyfrau i blant, datblygu diddordeb darllenwyr a chynghori oedolion am addasrwydd llyfrau penodol. Dyma ddwy safle arbennig:

<http://www.lovereadings4kids.co.uk> – pob math o arweiniad, gan gynnwys adolygiadau cynhwysfawr o lyfrau gan Julia Eccleshare, golygydd llyfrau plant y *Guardian*. Pwyslais arbennig ar weithiau o safon – 'Michael Morpurgo month' oedd mis Hydref, 2013, er enghraifft.

www.welovethisbook.com – adran ar lyfrau plant, erthyglau difyr megis 'How I created Matilda' gan Quentin Blake (Hydref 2013), a 'Darren Shan's Halloween Reads' (Hydref 2013).

Mae'n anodd gwybod a fyddai modd cynnal trafodaeth reolaidd ar lyfrau Cymraeg i blant; byddai angen blogfeistr(es) i brocio awduron a dod o hyd i ddeunydd difyr wythnos ar ôl wythnos, gan ddefnyddio Facebook a Twitter hefyd i dynnu pobl at y blog. Ond nid yw'n fenter amhosib. Bydd yn ddifyr iawn gweld faint o ddiddordeb fydd yna yn y blog a sefydlodd Siwan Rosser o Brifysgol Caerdydd ym mis Medi 2013, sef: <http://llenyddiaethplant.wordpress.com/>.

12.10 Nid oes siopau llyfrau plant arbenigol gennym yng Nghymru ond mae cymaint o ganmol i'r rôl maent yn ei chwarae o fewn y diwylliant darllen yn Lloegr byddai'n werth inni wneud astudiaeth o'r arferion da. Yn sicr mae modd i siopau llyfrau cyffredinol fabwysiadu rhai o'r syniadau; yn wir, gwneir hyn eisoes mewn ambell siop fel y nodwyd yn yr adran ar hyrwyddo llyfrau Cymraeg – gweler Sgleinio'r Sêr, 10.11. Petai gwefan / blog ar gael am lyfrau plant a darllen, byddai stori am ambell siop lyfrau plant yn gwneud erthygl ddifyr a defnyddiol. Dyna'n union oedd pwnc yr awdur Fleur Hitchcock ar ei blog hithau Nadolig diwethaf, a hael iawn oedd ei chanmoliaeth o siop Storytellers Inc yn St Anne's on Sea. Gweler <http://fleurhitchcock.wordpress.com/2012/12/>

56

12.11 Yn ôl adroddiad y Booksellers' Association, 2012, doedd yr un siop lyfrau i blant wedi cau yn ystod 2011, er fod 73 o siopau llyfrau eraill wedi gorfod gwneud. Roedd 40 siop yn ffynnu, meddai awdur yr adroddiad. Ar wefan y BBC ym mis Gorffennaf 2012, pan gyhoeddwyd yr adroddiad ar y flwyddyn flaenorol, dyfynnwyd perchennog *Mr & Mrs Doak's Bumper Bookshop for Boys and Girls*, Eastbourne: 'There are signs that people are spending more money on books for their children.' Ac yn wir, dyna ddigwyddodd yn 2012.

12.12 Er gwaetha bywiogrwydd y maes i'w gymharu â'r gweithgarwch yma yng Nghymru, mae carwyr llyfrau plant yn ei weld yn annigonol. Dyma a ddywed Julia Donaldson, Children's Laureate (ar y pryd), yn y *Daily Telegraph*, Mehefin 03, 2013:

A foreigner reading our newspapers, listening to our radio or watching our television, could be forgiven for getting the impression that we have little pride or interest in our children's writers and illustrators. How could they guess that children's books account for nearly one in four of all book sales, when far less than a fortieth of review space in printed papers is dedicated to them? Perhaps they might imagine that we have a dearth of parents, grandparents and teachers when they listen to A Good Read on Radio 4: of the 48 titles the programme has featured since that memorable day last July [agoriad y Gemau Olympaidd], just one is a children's book, namely the ubiquitous US export, The Hunger Games.

- 12.13 Pur anaml y bydd trafodaeth ar lyfrau Cymraeg i blant ar y cyfryngau. Ceir ambell eitem ar raglen *Heno*, a bydd *Golwg* yn rhoi sylw i lyfrau plant ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Nid yw'n gwneud llawer mwy na rhestru rhai teitlau, fodd bynnag.
- 12.14 Mae'r Children's Laureate presennol, sef Malorie Blackman, wedi dewis canolbwyntio ar lyfrau i'r arddegau, maes lle mae llyfrau arbennig iawn nad ydynt yn cael sylw haeddiannol yn ei barn hi. Cynhelir cynhadledd genedlaethol ar y pwnc am y tro cyntaf ym Mehefin 2014 yn Llundain – YALC (Young Adult Literature Convention). A oes modd defnyddio'r bachyn hwn fel ffordd o dynnu sylw at y cynnyrch gorau ym maes pobl ifanc yn y Gymraeg?
- 12.15 Er fod gennym Fardd Plant yng Nghymru, a gwelwyd ymgais dda i ddenu sylw a diddordeb yn ddiweddar gyda'r gerdd hir ryngweithiol, nid oes unrhyw un yn cynrychioli llyfrau plant yn gyffredinol. Pwy yw'r llysgenhadon sy'n brwydro dros werth llyfrau Cymraeg i Blant?

13. Datblygiadau Digidol

- 13.1 Rhaid cydnabod bod y newid mewn arferion hamdden plant yn ffactor sy'n fygythiad i'r llyfr printiedig, os nad i'r arfer o ddarllen yn gyfan gwbl. Mae gan gwmni Egmont ymchwil parhaus ar arferion darllen plant a cheir trafodaeth ddefnyddiol ar: <http://readinglives.egmont.co.uk/category/reading-street-2/>. Un newid amlwg ym mywydau plant yw'r cysylltiad cyson â'r byd digidol trwy gyfrwng teclynnau o sawl math. Yn yr adroddiad diweddaraf gan yr ymchwilyr, nodwyd fod diffyg 'amser tawel', heb ymyrraeth oddi wrth y byd digidol, yn beth prin iawn i blant erbyn hyn, a bod yr arfer o godi llyfr ar drai o ganlyniad i'r prysurdeb parhaus. (<http://www.thebookseller.com/news/lack-quiet-time-hits-childrens-reading.html>)
- 13.2 A oes gobaith y bydd y plant nad ydynt yn meithrin yr arfer o godi llyfr yn troi at e-lyfrau? Yn 2011, cynyddodd gwerthiant o e-lyfrau Saesneg i blant yn aruthrol:
- Gwerthwyd 2.6 miliwn o e-lyfrau i blant yn ystod hanner cyntaf 2012, i'w gymharu ag 1 miliwn y flwyddyn flaenorol.
 - Yr hyn oedd yn bennaf gyfrifol am y datblygiad mawr oedd fod modd 'lifo' testun mewn ffordd nad oedd wedi bod yn bosib cyn hynny. Wrth i'r dechnoleg alluogi i fathau gwahanol o lyfrau gael eu cynnig mewn fformat digidol, newidiodd y patrwm prynu.
- 13.3 Ychydig o lyfrau Cymraeg i blant sydd ar gael mewn fformat e-lyfr ar hyn o bryd ac mae'n rhy gynnar i fesur poblogrwydd. Mae'r Lolfa wedi buddsoddi mwy ac wedi darparu mwy o deitlau nag unrhyw wasg arall, ac mae'r awduron a holwyd yn croesawu'r ffaith fod eu gwaith ar gael fel e-lyfrau. Mae'n anodd rhagweld beth fydd goblygiadau hyn ar rediadau argraffu a gwerthiant y ddau gyfrwng yn y tymor hir. Mae'r Lolfa hefyd wedi dal ati gyda pherswadio Amazon i gynnwys deunydd Cymraeg ar ffurf Kindle.

- 13.4 Rhaid cofio mai dim ond 20% o amser plant ar ‘dabledi digidol’ fydd yn cael ei dreulio ar weithgaredd tebyg i ddarllen llyfr. Gemau, syrffio, defnyddio aps, gwylio fideos a ffilmiau, gwrando ar gerddoriaeth: dyna yw’r atyniadau cyffredin.
- 13.5 Beth mae cyhoeddwr yn Lloegr yn ei wneud er mwyn goroesi, neu’n well fyth, llwyddo a datblygu? Cyhoeddodd Walker Books ym mis Medi 2013 eu bod yn sefydlu gwasgnod newydd i ganolbwyntio ar ddeunydd ‘cyfryngol’.

‘Our view here at Walker is that great content comes from anywhere. We are open-minded about new ideas—for us not to have a close eye on what is coming from digital and TV doesn’t make sense. If we are accessing children, and they are in all these spaces, we need to be there.’

Bwriad y wasgnod newydd yw cydweithio â chwmnïoedd eraill sy’n arbenigo mewn mathau gwahanol o gynnyrch a allai arwain at lyfrau llwyddiannus. Un o’r cyfresi cyntaf fydd llyfrau am ‘Shaun the Sheep’, sy’n cysylltu â’r rhaglenni CBBC.

59

- 13.6 Er fod hyn yn ailadrodd pwynt a wneir mewn rhan arall o’r adroddiad hwn, rhaid pwysleisio’r angen i gynnal trafodaethau gyda’r prif gynhyrchwyr deunydd digidol yng Nghymru, sef S4C a’r cwmnïau sy’n darparu rhaglenni iddynt. Ymddengys nad yw’r gweisg unigol yn gwneud llawer o hynny ar hyn o bryd ac mae’n debygol bod cyfle i’r Cyngor Llyfrau arwain ar hyn a chydlynu’r trafod.
- 13.7 Mae nifer o gwmnïau cyhoeddi Saesneg yn buddsoddi mewn creu aps sy’n cydfynd â’u llyfrau i blant. Mae cyhoeddwr Horrid Henry ymhlith y rhai sydd wedi gwneud. Mae’n ddiddorol gweld oddi wrth yr adolygiadau nad yw prynwyr yn meddwl llawer ohonynt; dywed sawl adolygydd nad ydynt yn cynnig gwerth am arian. Y gwir yw fod angen bod yn ddyfeisgar dros ben i wneud argraff ar blant sy’n brofiadol yn y maes digidol, a disgwylir elfen ryngweithiol gref. Soniodd Lynda Tunnicliffe am ap *War Horse*, Michael Morpurgo, fel enghraifft da iawn o’r hyn sy’n bosibl. Does dim amheuaeth, fodd

bynag, fod cost aps uchelgeisiol y tu hwnt i gyllidebau cyhoeddwy'r plant yng Nghymru.

- 13.8 Cynigir cynllun creu aps gan y Cyngor Llyfrau ar hyn o bryd sy'n rhoi cyfle i gyhoeddwy'r ddatblygu cynnyrch ar raddfa resymol dros ben. Cynigir cymorth technegol hefyd gan y cwmni sy'n darparu – trwy gyfrwng 'webinar' yn ôl y gofyn. Atebol, y Lolfa a Rily sy'n bwrw ymlaen gyda hyn ym maes llyfrau plant.
- 13.9 Does wybod pa mor barod fydd y gynulleidfa Gymraeg i dalu am aps. Mae'r maes digidol yn un lle mae cymaint o ddeunydd ar gael am ddim, mae'n annhebygol y bydd gwerthiant mawr i ddeunydd hamdden. Bydd aps sy'n cael eu gweld fel cymorth addysgol neu sy'n ateb angen penodol, fodd bynnag, yn fwy tebygol o werthu. Cyhoeddodd Rily Ap Geiriadur, *Picture Dictionary App* i blant bach, pris £1.99, ac mae wedi gwerthu dros 300.
- 13.10 Ym marn nifer o rieni a holwyd yn anffurfiol byddai croeso mawr i aps sydd ar gael am ddim ond sy'n cysylltu â llyfrau Gymraeg i blant. Cyhoeddodd Golwg Ap Rwdlan, sydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cylchgrawn *WCW* (a'r llyfrau yn eu tro), a byddai'n wych cael deunydd tebyg ar gyfer cymeriadau gwreiddiol eraill, megis Alun yr Arth a Sali Mali. Dyfais marchnata fyddai cynnyrch o'r math, ond gallent sicrhau fod plant yn parhau'n ffyddlon i'r deunydd Gymraeg ac yn ei weld yr un mor ddifyr â'r 'adloniant' sydd ar gael o gyfeiriadau eraill.
- 13.11 I weld y cyd-destun, dylid edrych ar y deunydd digidol 'storïol' arall sydd ar gael yn y Gymraeg am ddim.
- (i) Safle gwe Cyw. Mae cyfres o lyfrau stori-a-llun, a darlleniad sain i fynd gyda'r lluniau a'r testun wrth i'r tudalennau gael eu troi. Am ddim.
 - (ii) Mae Ap Cyw ar gael am ddim; hefyd e-lyfrau unigol

(iii) Yn yr ysgol, efallai y bydd defnydd yn cael eu wneud o'r straeon sydd ar HWB Cymru, sef gwefan y Llywodraeth lle darperir adnoddau i athrawon e.e Chwedl Llyn-y-fan Fach. Eto, ceir tudalennau sy'n troi, testun i'w ddarllen a darlleniad i wrando arno. Does dim cyfeiriad at awdur nag arlunydd, ond mewn ffyrdd eraill mae'r rhain yn debyg iawn i lyfrau.

13.12 Mae rhai o'r adnoddau sydd ar gael am ddim yn medru amharu ar werthiant llyfrau print, a dylai cyhoeddwr fod yn ofalus iawn am beth sy'n cael ei roi ar HWB Cymru, fel y sonnir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

13.13 Yn y trafodaethau gyda Gwasg y Dref Wen, mynegwyd y farn nad oedd modd cyfiawnhau'r ymdrech a wnaed er mwyn darparu darlleniadau o lyfrau plant fel ffeiliau sain sydd ar gael am ddim ar wefan y cyhoeddwr. Cafwyd cymhorthdal i'w cynhyrchu ond nid yw'r cyhoeddwr yn gweld prawf o effeithiolrwydd y prosiect yn y ffigurau gwerthiant. Tybed ai problem diffyg cyhoeddusrwydd ac ymwybyddiaeth yw hon?

13.14 Yn y Gynhadledd Llyfrau Plant a gynhaliodd y *Bookseller* ym mis Medi 2013, un o'r seminarau oedd: 'Being brave with apps and games'. Mae'n amlwg ei bod hi'n nod ganddynt ledaenu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith cyhoeddwr Prydain yn gyffredinol. A fyddai'n syniad da cynnal gweithdy/diwrnod pori i gyhoeddwr llyfrau Cymraeg i Blant, a hynny yng nghwmni rhywun brwdfrydig dros ben am werth Aps a'u perthnasedd i lyfrau?

14. Argymhellion

Gan fod yr adroddiad hwn wedi ei baratoi ar gais Panel Grantiau (Cymraeg) Cyngor Llyfrau Cymru mae'r argymhellion yn gorfod bod yn rhai y gellid eu gweithredu gan y corff hwnnw. Yn ddelfrydol, fodd bynnag, byddai'n fuddiol petai corff arall yn arwain ar rai o'r agweddau a nodir isod, ond rhaid cynnig y pwynt gweithredu cychwynnol i'r Cyngor Llyfrau, a gomisiynnodd yr adroddiad hwn.

- 14.1 Ailedrych ar y bwriad i ddadlau dros arian i gefnogi marchnata fel y cam nesaf yn y broses o gryfhau'r tai cyhoeddi, a thrafod hyn gyda'r partneriaid o fewn y Llywodraeth.
- 14.2 Wrth drafod rhaglenni cyhoeddi gyda'r cyhoeddwr rhaglen, pwysleisio pwysigrwydd datblygu cyfresi gyda brandio amlwg.
- 14.3 Cynnal sesiwn benodol fel rhan o'r hyfforddiant i olygyddion ar ddiwyg llyfrau plant a'r hyn sy'n ffasiynol ar hyn o bryd. Gwahodd staff dylunio yn y gweisg i'r digwyddiad hefyd.
- 14.4 Adolygu trefniadau gwobrau Gwobrau Tir na n-Og gan ystyried cynnwys plant yn y gweithgarwch a/neu'r cyhoeddusrwydd.
- 14.5 Gweithredu er mwyn cynnig arweiniad i rieni di-Gymraeg ar sut i ddewis a defnyddio llyfrau Cymraeg i blant. Cydweithio â pha asiantaeth(au) bynnag a allai helpu: AdAS, Cyw, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Twf, y cyhoeddwr sy'n fodlon buddsoddi yn y maes hwn.
- 14.6 Trafod gyda chyhoeddwr grant rhaglen yr angen am gynllun cyhoeddi uchelgeisiol wedi ei anelu at rieni sydd am helpu eu plant gyda darllen a defnyddio'r Gymraeg. Llyfrau 'darllen gartref' fyddai'r rhain i atgyfnerthu'r cynlluniau darllen sydd ar gael yn yr ysgolion: nifer sylweddol o deitlau ar sawl lefel; pris rhesymol iawn; dulliau

cynhyrchu rhad fel styffylu a phapur mwy cyffredin nag arfer o bosibl?

- 14.7 Trafod a fyddai'n bosibl i'r cynllun Aps a gynigir gan y Cyngor Llyfrau ar hyn o bryd gael ei ddefnyddio nid yn unig i greu Aps i'w gwerthu ond hefyd i greu Aps a fyddai ar gael am ddim gyda'r bwriad o fod yn adnoddau marchnata. Deunydd 'atodol' fyddai'r cynnwys, i brocio neu atgyfnerthu diddordeb mewn teitl penodol, mewn cyfres neu lyfrau o fath arbennig.
- 14.8 Paratoi Crynodeb o Gyfresi Ffuglen (oed 5-13) ar ffurf siart un dudalen a'i dosbarthu i siopau llyfrau wedi ei hargraffu ar gerdyn syml (*cf* y cerdyn am Dreigladau sy'n gwerthu fel slecs i ddysgwyr!). Arweiniad cyffredinol fyddai hwn a byddai angen ei ddiweddarau bob blwyddyn. Byddai modd ei gynnwys hefyd yn y catalog llyfrau plant.
- 14.9 Cynnal trafodaethau gyda'r comisiynydd plant yn S4C er mwyn adnabod unrhyw gyfleoedd i gysylltu rhaglenni teledu â byd llyfrau plant. Gweithredu fel llysgennad a chylchredeg unrhyw gyngor neu newyddion a allai fod o fudd i'r cyhoeddwr.
- 14.10 Trafod gydag AdAS er mwyn sicrhau fod rhestri o lyfrau cyfredol ar gael fel rhan o'r Atodiad i'r Fframwaith Llythrennedd, fel y bwriadwyd pan gyhoeddwyd yr Atodiad ym mis Medi 2013. Cynnig person neu asiantaeth a fyddai'n gallu darparu'r wybodaeth angenrheidiol.
- 14.11 Trafod gydag AdAS a/neu CBAC/HWB yr angen am arweiniad i athrawon parthed adnoddau addysgol *fesul thema*. Nid oes catalog cynhwysfawr mewn unrhyw fformat, print neu ddigidol, ar gael i roi'r wybodaeth yn y ffurf mwyaf defnyddiol i athrawon. Mae galw mawr am restrri fesul themâu cyffredin, a byddai'n un ffordd o gynyddu ymwybyddiaeth o lyfrau. Mae pob trafodaeth, nid yn unig ar gyfer yr adroddiad hwn ond mewn sawl cyd-destun arall, yn dangos y byddai athrawon yn croesawu cymorth

ac arweiniad o ran dod i wybod mwy am y llyfrau a'r adnoddau eraill sydd ar gael ar gyfer y dosbarth.

14.12 Cynnal trafodaeth gyda'r cyhoeddwy am sut i fanteisio ar HWB Cymru a diogelu deunydd masnachol ar yr un pryd. Mae angen i gorff sy'n gweld pwysigrwydd economaidd y cynnyrch, yn ogystal â phwysigrwydd cyfleoedd marchnata, arwain ar hyn. Nid oes disgwyl i Adran Addysg y Llywodraeth edrych ar bethau o'r un persbectif.

14.13 Comisiynu ymchwil ymhlith plant er mwyn canfod eu hymateb i lyfrau Cymraeg. Mae sawl ffordd o wneud hyn – manteisio ar rwydweithiau cymdeithasol ond hefyd trwy gwrdd wyneb yn wyneb â grwpiau o blant. Bwydo'r hyn a ddysgir yn ôl i'r cyhoeddwy er mwyn dylanwadu ar eu cynlluniau.

14.14 Cryfhau'r rhwydweithio rhwng 'chwaraewyr allweddol' yn y maes, megis cyhoeddwy, siopau llyfrau, ysgolion, llyfrgellwyr, hyrwyddwyr llenyddiaeth a digwyddiadau. Ymgynghori yn y lle cyntaf ar y math o system neu gyfleoedd y byddai'r sectorau gwahanol yn eu ffafrio er mwyn sicrhau cysylltiadau hawdd a chyson. Mae'r syniadau sy'n cael eu cynnig gan y siopau llyfrau ymhlith y rhai mwyaf 'masnachol' ac addawol a drafodwyd yn ystod yr ymgynghori hwn ac fe fyddai'n werthfawr iawn pe bai llwybr penodol i'w ddilyn er mwyn bwydo'r syniadau hyn i'r cyhoeddwy.

14.15 Gwneud defnydd ehangach o'r taflenni gwybodaeth (AIs) am lyfrau Cymraeg i blant a ddarperir gan y cyhoeddwy trwy sicrhau fod llyfrwerthwyr yn cael mynediad iddyn nhw. Hefyd, sicrhau eu bod ar gael mewn fformat a fydd yn galluogi'r llyfrwerthwyr i'w lawrlwytho (pdf).

14.16 Trefnu hyfforddiant /cynhadledd undydd i: lyfrwerthwyr, cyhoeddwy llyfrau plant (gan gynnwys staff marchnata) a llyfrgellwyr plant ar y pwnc o hyrwyddo llyfrau, gan gymryd yr arferion da a welir yn y siopau llyfrau plant gorau yn Lloegr fel canolbwynt i'r

diwrnod. Byddai dulliau denu a datblygu chwaeth darllenwyr, yn ogystal â chynghor am sut i ddatblygu arbenigedd, yn berthnasol i waith pob un o'r grwpiau uchod.

14.17 Cynnal gweithdy/diwrnod pori i gyhoeddwyr llyfrau Cymraeg i blant yng nghwmni arbenigwyr ar Aps i blant a'u perthnasedd i lyfrau.

14.18 Trefnu bod hyrwyddwr yn treialu cynllun lle bydd myfyrwyr ysgol uwchradd yn darllen llyfrau i blant bach (gweler 12.8 am ragor o wybodaeth). Mynegodd Ysgol Uwchradd Aberteifi ac Ysgol Gynradd Aberteifi barodrwydd i dreialu'r syniad yn 2014.

Atodiad 1: Pobl a sefydliadau allweddol a gyfrannodd sylwadau a gwybodaeth

Cafwyd trafodaeth gyda nifer o **awduron llyfrau plant**, yn cynnwys Gareth F Williams, Manon Steffan Ros, Gwenno Hughes a Bethan Gwanas.

Cyfrannodd athrawon yn yr **ysgolion cynradd** canlynol wybodaeth a sylwadau ar gyfer yr adroddiad.

Ysgol Bryn Saron, Llangeler, Sir Gaerfyrddin

Ysgol Bryn Iago, Pontarddulais, Abertawe

Ysgol Abernant, Ceredigion

Ysgol Cas-mael, Sir Benfro

Ysgol Dolbadarn, Llanberis, Gwynedd

Ysgol Sant Curig, y Barri, Bro Morgannwg

Cyfrannodd y **llyfrgellwyr** isod bwyntiau gwerthfawr dros ben yn ogystal ag ystadegau:

Bethan Hughes, Rheolwr Gwasanaethau Darllen, Llyfrgell Sir Ddinbych

Llinos Davies, Llyfrgellydd Cymunedol Rhuthun a Dinbych

Delyth P Huws, Llyfrgell Plant ac Ysgolion, Sir Ceredigion

Nia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Defnyddwyr, Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd

Sioned Jacques, Llyfrgellydd Gwasanaeth i Ysgolion Sir Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint a Wrecsam

Cafwyd trafodaethau gyda pherchnogion y **siopau llyfrau** canlynol:

Siop Inc, Aberystwyth

Siop y Pethe, Aberystwyth

T-Hwnt, Caerfyrddin

Awen Teifi, Aberteifi

Palas Print, Caernarfon

Dalen Newydd, Caerllion/Casnewydd

Atodiad (ii) Sampl o Holiadur (i Lyfrgellwyr)

Holi barn llyfrgellydd: Hydref 2013

Rwyf wedi llunio holiadur syml a allai fod yn sail i drafodaeth am **Lyfrau Cymraeg i Blant**, ond nid oes rhaid ei lenwi, ac rwy'n hapus iawn os bydd y sgwrs yn mynd i gyfeiriadau nad wyf wedi eu rhagweld! Diolch am eich amser a'ch parodrwydd i gyfrannu at arolwg o'r maes.

RHAN UN: eich barn yn gyffredinol (am lyfrau Cymraeg nad ydynt yn werslyfrau addysgol pur)

1. Beth yw'ch barn chi am y **dewis** o lyfrau Cymraeg sydd ar gael i blant ar hyn o bryd? Beth yw eich argraff gyffredinol? (*Ychwanegwch sylwadau ar unrhyw bwynt fel y dymunwch*)

Babis / Cyfnod sylfaen: pob math o lyfrau

(*Rhowch gylch*) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

Oed 7 i 9

- Straeon / cerddi / nofelau

(*Rhowch gylch*) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

- Llyfrau ffeithiol / gwybodaeth / cyfair

(*Rhowch gylch*) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

Oed 9 i 11

- Straeon / cerddi / nofelau

(*Rhowch gylch*) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

- Llyfrau ffeithiol / gwybodaeth / cyfair

(*Rhowch gylch*) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

Oed 11+

- Straeon / cerddi / nofelau

(Rhowch gylch) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

- Llyfrau ffeithiol / gwybodaeth / cyfair

(Rhowch gylch) Dewis da / dewis digonol / dim digon o ddewis

2. Beth yw'r bylchau amlwg yn eich barn chi?

.....

.....

.....

RHAN DAU: adnoddau a pholisiau'r llyfrgell

68

1. Gwariant ar lyfrau Cymraeg i blant

Pa mor agos ydych chi fel gwasanaeth at fedru prynu yr hyn fydddech chi'n dymuno ei brynu ar gyfer plant?

.....

Beth yw'ch blaenoriaethau chi?

.....

2. Pa ddarpariaeth sydd ar gael i ysgolion?

.....

3. Pa ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig o safbwynt gweithgareddau Sadwrn / ar ôl ysgol / yn y gwyliau?

.....

4. A oes gennych sylwadau ar y canlynol:

- Llyfrau Dwyieithog

.....

- Yr amrywiaeth/dewis o awduron sy'n cyhoeddi yn y Gymraeg

.....

- Arlunwaith a dylunwaith llyfrau Cymraeg i blant

.....

- Prisiau llyfrau Cymraeg

.....

- Safon golygyddol / ieithyddol

.....

- Apêl llyfrau Cymraeg i blant

.....

- Adnoddau marchnata a hyrwyddo

.....

5. Adnoddau atodol

Ydych chi'n gwneud defnydd o ffeiliau sain / darlenniadau o lyfrau Cymraeg ar y we neu ar CD?

.....

Beth am e-lyfrau Cymraeg i blant?.....

Beth am aps?

RHAN TRI : yr ymateb i lyfrau Saesneg

1. Sut mae'r diddordeb mewn llyfrau Saesneg i blant yn cymharu â'r diddordeb mewn llyfrau Cymraeg? (ymhlith plant sy'n medru'r ddwy iaith, os oes modd dadansoddi hynny)

.....

2. A oes modd cyffredinoli o gwbl am agwedd plant mewn ardaloedd penodol neu fathau arbennig o ysgolion tuag at lyfrau Cymraeg (mewn cymhariaeth â llyfrau Saesneg) yn eich barn chi?

.....

3. Ydy defnydd plant o ipad neu dabled yn berthnasol i'ch gwasanaeth chi?

.....

4. Unrhyw sylw am ddeunydd digidol cyfrwng-Saesneg a'r apêl?

.....

RHAN PEDWAR: peryglon a chyfleoedd

70

Unrhyw newidiadau ar droed sy'n debygol o niweidio'r maes rydych chi'n gweithio ynddi?

.....

Unrhyw newidiadau sy'n creu cyfleoedd newydd i chi fel llyfrgellwyr plant?

.....

RHAN CHWECH: cyfrannu syniadau a chlориannu

A fyddwch chi'n cael cyfle i ddylwanadu ar unrhyw gwmnïau neu sefydliadau sy'n berthnasol i faes llyfrau plant?

.....

A fydddech yn croesawu unrhyw ffyrdd ychwanegol o rwydweithio neu gydweithio?

.....

RHAN PUMP: materion eraill

Unrhyw sylwadau ar bethau eraill sy'n gysylltiedig â llyfrau Cymraeg? (Oes syniad gyda chi faint o ddylanwad sydd gan ambell beth?)

e.e. Gwobrau Tir na n-Og
Y Cwis Llyfrau
Bardd Plant Cymru
Awduron ar Daith
Diwrnod y Llyfr
Diwrnod T Llew Jones

Petaech yn cael TRI DYMUNIAD: (dim addewid ynghlwm wrth yr holi, mae'n ddrwg gen i.)

71

- 1.
- 2.
- 3.

Atodiad (iii): llythyr Bethan Gwanas ar ran awduron llyfrau Cymraeg i Blant

Ffrwd y Gwyllt, Rhydymain, Dolgellau, Gwynedd LL40 2AH

Ann Evans

Uned Datblygu'r Gymraeg

ADAS, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Tŷ Afon, Ffordd Bedwas

Bedwas

Caerffili

CF83 8WT

21.1.13

Annwyl Ann ac aelodau'r Panel Llyfrau Darllen Cymraeg,

Rwy'n ysgrifennu atoch oherwydd fy mod wedi digalonni gyda'r symiau sy'n cael eu cynnig i awduron llyfrau ar gyfer yr ardegau. Do, ar ôl datgan fy siom yn syth fod y swm mor isel, mi gytunais i sgwennu fy nofel beth bynnag oherwydd mod i'n hoffi'r syniad y tu ôl i'r gyfres ac yn gwybod hefyd fod gwir angen nofelau o'r math yma.

Ond wedi sylweddoli faint o waith ac amser roddais i i mewn i'r nofel dan sylw, rwy'n teimlo ei bod hi'n ddyletswydd arnaf i dynnu eich sylw at anhegwch y system dendro.

Fel y gwyddoch, mae'r gweisg yn tendro yn erbyn ei gilydd am y gwaith yma a chan fod ADAS yn tueddu i fynd am y pris isaf, mae hyn yn rhoi pwysau ar y gweisg i gynnig ffioedd isel iawn i'r awduron.

Efallai fod y system yma'n iawn ar gyfer addasu gwerslyfrau ond rwyf fi, a nifer o awduron eraill yn credu ei fod yn gwbl anheg ar gyfer gwaith creadigol. A bod yn onest, mae'n f'atgoffa o'r hyn sy'n digwydd mewn ffatrioedd creu dillad rhad yn y trydydd byd. Dyw ysgrifennu nofel wreiddiol ddim byd tebyg i gyfieithu neu addasu; mae angen meddwl am syniad yn gyntaf, gwneud gwaith ymchwil hefyd yn amlach na pheidio, yna gweithio ar y syniad er mwyn creu cymeriadau a phlot cyn hyd yn oed dechrau ar y broses o ysgrifennu, sy'n gallu cymryd misoedd – blynyddoedd os yw'n nofel hir. Wedyn, mae angen ail ddrafftio yn aml, golygu, mynd drwy broflenni ac ati.

Mae fy nofel i'n 27,000 o eiriau, a'r ffi yn £1,500, sy'n gweithio allan yn £55 am bob mil o eiriau (mae pobl yn talu £60-£80 y fil dim ond am gyfieithu). Ar gyfartaledd, rhyw fil o eiriau fydda i'n ei wneud y dydd. Mwy ar ddiwrnod da, llai dro arall. £55 y diwrnod. Edrychwch ar eich cyflog eich hunain. Cymharwch. A yw hyn yn deg?

Tybed a fyddai modd i ADAS osod canllawiau gyda'r manylebau ar gyfer y tendro? Beth am gymeradwyo £100 (o leiaf!) am bob mil o eiriau ar gyfer gwaith creadigol a gofyn i weisg ddilyn y canllawiau wrth brisio? £2,700 fyddai'r ffi wedyn am nofel 27,000 o eiriau, sy'n dal yn warthus o isel am waith creadigol, ond yn fwy tebygol o ddenu awduron profiadol.

Er fy mod yn hapus iawn gyda fy nofel, ac wedi mwynhau'r broses ar ei hyd, ni fyddaf yn debygol o ysgrifennu un arall ar gyfer cyfres sy'n cael ei rhoi i dendr fel hyn. Nid os ydw i eisiau parhau i allu talu'r morgais/bil trydan.

Dyma eiriau Gareth F Williams: "Rydym yn sgwennu am ein bod yn caru sgwennu. Rydym yn sgwennu yn y Gymraeg, ac ar gyfer pobol ifainc, am ein bod yn caru'r iaith ac yn credu'n gryf y dylid cael llên gwreiddiol ar eu cyfer nhw yn eu hiaith hwy eu hunain. Yn sicr, ar y foment, nid yw'r tâl yn agos at adlewyrchu'r ymroddiad sydd ei angen ar gyfer creu gwaith gwreiddiol, ac os na fydd yn gwella, ofnaf y bydd nifer o'm cyd-awduron yn digalonni ac yn dweud, 'O – be ydi'r iws? Alla i ddim fforddio sgwennu dim rhagor.' Ac y bydd nifer o ddarpar-awduron yn penderfynu nad oes unrhyw bwynt dechrau."

Dyma restr o awduron sy'n cymeradwyo'r llythyr hwn:

Gareth F Williams

Manon Steffan Ros

Caryl Lewis

Lleucu Roberts

Gordon Jones

Sian Northey

Delyth George

Angharad Tomos

Mared Lewis

Haf Llewelyn

Gwyneth Glyn

Mari George

Gwenno Huws

Rhiannon Wyn

Meinir Pierce Jones

Byddwn yn gwerthfawrogi petaech yn dwyn sylw'r paneli eraill perthnasol i'r mater hwn hefyd, gan fod ffuglen yn cael ei gomisiynu o fewn sawl rhan o'r cwricwlwm o'r hyn rwy'n ei ddeall am y broses.

Yr eiddoch yn gywir,

Bethan Gwanas

Atodiad (iv): Adborth o'r Ysgolion Cynradd

Enghraifft Un:

- Prif ofid yr athrawes yw agwedd y plant tuag at lyfrau Cymraeg. Soniodd yn benodol am blant Blwyddyn 5 a 6, sy'n llawer mwy brwd am lyfrau Saesneg. Mae sawl peth i gyfri am hyn yn ôl yr athrawes, sef diwyg llyfrau Cymraeg, sy'n gallu bod yn ddiflas iawn, a'r ffaith fod yr iaith yn anodd i'r darllenwyr. Er enghraifft, dywedodd nad yw plant cynradd yn medru ymdopi â iaith nofelau T Llew Jones. Roedd yn canmol cyfresi ar gyfer darllenwyr iau, megis llyfrau Tudur Budr, Henri Helynt a'r gyfres Gwreichion, ond roedd o'r farn nad oedd llawer i ddarllenwyr hŷn (9-11), yn enwedig bechgyn. Soniwyd am lyfrau a ddefnyddir yn y dosbarth oherwydd eu cyswllt â'r cwricwlwm, ac yn ddiddorol iawn roedd sawl un yn hen iawn ac allan o brint e.e. *Cyfrinach Betsan Morgan* (1986; a/b), *Bwli a Bradwr* (1998; a/b), *Ta-ta Tryweryn* (1999, ar gael). Dywedodd yr athrawes fod y plant yn ymateb yn dda i bob un o'r rhain.
- Er bod y disgyblion yn mwynhau *Diary of a Wimpy Kid* gan Jeff Kinney yn Saesneg, nid oedd yr addasiadau Cymraeg, *Dyddiadur Dripsyn* ac ati, ar gael yn yr ysgol.
- I bwrpas ymchwil o bob math, gwneir defnydd o iPad yn y dosbarth. Nid oes llawer o ddeunydd Cymraeg yn cael ei ganfod gan y disgyblion, fodd bynnag.
- Mae'r athrawes yn ymwybodol fod rhai o'r plant eisoes yn darllen llyfrau (Saesneg) ar Kindle yn y cartref.
- Pan ofynnwyd pa deitlau Saesneg oedd yn hoff gan y disgyblion, mae'n ddiddorol nodi fod popeth heblaw am lyfrau David Walliams hefyd ar gael yn y Gymraeg. Dyma oedd y rhestr a gafwyd: Harry Potter, llyfrau Jaqueline Wilson, *Diary of a Wimpy Kid*, llyfrau Michael Morpurgo, llyfrau Roald Dahl, llyfrau David Walliams.
- Nodwyd nad yw'r cysyniad o 'lyfr newydd' yn berthnasol iawn i'r ysgol. Y llyfrau gorau i gwrdd â'r angen yw'r peth pwysicaf bob tro.

Enghraifft Dau:

- Gofid yr athrawon yn yr ysgol hon oedd fod y cwricwlwm gorlawn yn ei gwneud hi'n anodd rhoi lle teilwng i ddarllen er pleser. Roedd fan llyfrgell yn arfer dod i'r ysgol ond peidiodd y gwasanaeth hwnnw'n ddiweddar ac mae llai fyth o gyfle erbyn hyn i blant fwynhau gweld a dewis llyfrau.
- Daeth y sylw ei bod hi'n anoddach cynnwys y rhieni yn yr ymdrech i gael plant i ddarllen yn rheolaidd. Er bod gan bob plentyn gofnod personol o'i ddarllen i'w rannu gyda'r rhiant (gyda lle i rieni lofnodi a chefnogi) mae llawer mwy o rieni'n esgeuluso'r goruchwyllo erbyn hyn. Mae'r ysgol yn ceisio darparu llyfrau dwyieithog i'w hanfon adre gyda'r plant gan fod canran uchel o'r rhieni yn ddi-Gymraeg. Mae'r plant yn y Cyfnod Sylfaen yn ymateb yn dda i lyfrau sy'n gysylltiedig â'r hyn sydd i'w weld ar y teledu.
- Bydd yr athrawon yn ymddiddori mewn llyfrau am eu bod yn rhieni eu hunain ac yn mynychu siop lyfrau dda yn lleol, ond maent yn teimlo bod cadw golwg ar gyhoeddiadau newydd a allai fod yn gyffrous i'r plant yn anodd. Roeddent dan yr argraff nad oedd pecyn gwybodaeth am lyfrau wedi dod i'r ysgol o'r Cyngor Llyfrau ers tro byd. [Camargraff, gan fod postiad tymhorol yn dal i ddigwydd.] Yn ddiddorol, enwyd *Diary of a Wimpky Kid* fel un o'r teitlau Saesneg sy'n hoff gan y disgyblion ond nid oedd yr athrawon yn gwybod bod fersiwn Cymraeg ar gael o dri theitl yn y gyfres.
- Gyda llyfrau ffeithiol, nodwyd fod plant hyn y Cyfnod Sylfaen wrth eu bodd gyda'r deunydd Dechrau Da (Gomer) a byddai croeso i ragor o ddeunydd cyffelyb. Gyda'r oed 7-11, gwneir defnydd helaeth o iPad er mwyn gwneud gwaith ymchwil, a nodwyd fod angen llawer mwy o ddeunydd darllen Cymraeg yn ddigidol er mwyn sicrhau nad yw plant yn canfod gwybodaeth yn Saesneg yn unig. Roedd yr athrawon o'r farn mai mewn creu deunydd ffeithiol digidol y dylai'r buddsoddiad fod ar gyfer oed 7+, yn hytrach na llyfrau ffeithiol printiedig, sy'n dyddio'n gyflym.

Enghraifft Tri:

- Dywedodd yr athrawes fod plant y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau'r amrywiaeth o lyfrau sydd ar gael ar gyfer yr oedran hwn. Gan fod cyfnod wedi ei neilltuo ar gyfer Cornel Ddarllen bob dydd, maent yn cael llawer o gyfle i fodio, dewis, darllen a thrafod llyfrau Cymraeg. Roedd yr athrawes o'r farn fod dewis da o ffuglen ond hoffai weld mwy o lyfrau ffeithiol. Byddai'n croesawu llyfrau tebyg i'r gyfres Dechrau Da (sydd wedi cael derbyniad da iawn gan blant 7+ oed) ond wedi eu hanelu at y plant lleiaf, gyda thestun haws.
- Nid oes llawer o gefnogaeth ymhlith rhieni i ddarllen er pleser. Maent yn cydweithredu o safbwynt cofnod ddarllen y cynllun dysgu darllen, ond ychydig iawn o ddefnydd a wneir o'r cwestiynau trafod a argymhellir. Y gwaith cartref a osodwyd ar gyfer hanner tymor oedd ymweld â'r llyfrgell gyhoeddus a benthyca dau deitl Cymraeg, ond roedd yr athrawes yn tybio mai hanner dwsin o rieni fyddai wedi gwneud hyn yn bosibl i'r plant, er eu bod mewn ardal drefol.
- Mae'r athrawes yn cofio amser pan oedd adnoddau ar y teledu/fideo a oedd yn atgyfnerthu diddordeb mewn llyfrau, sef *Melin Mari* ac yn ddiweddarach, *Darllen Da Fi*. Roedd rhaglenni fel hyn yn ddefnyddiol i'w chwarae yn yr ystafell ddosbarth amser cinio ar dywydd gwlyb ac roedd plant adeg hynny yn eu mwynhau'n fawr. Nid oes dim byd cyffelyb ar gael nawr.
- Mae cylchgrawn *Cip* yr Urdd yn dod i'r ysgol, felly mae plant yn medru darllen am lyfrau o bryd i'w gilydd. Mae taflen y Clwb Llyfrau hefyd yn cael ei darllen. Ychydig iawn o brynu sy'n digwydd o ganlyniad, fodd bynnag. Dywed yr athrawes fod teitlau newydd yn creu cyffro a byddai cael copïau newydd o lyfrau'n gwneud gwahaniaeth mawr i ddelwedd llyfrau Cymraeg ac agwedd plant tuag atynt. Mae gwasgfa enbyd o safbwynt cyllideb yr ysgol ac er bod cynrychiolydd ysgolion y Cyngor Llyfrau yn galw'n flynyddol, prin yw'r arian ar gyfer prynu llyfrau.
- Ym Mlwyddyn 5 a 6 yr ysgol mae darllenwyr brwd, a da yw dweud eu bod yn barod i ddarllen yn y ddwy iaith. Bydd fan llyfrgell yn galw unwaith bob pythefnos, ond

cyfyng yw'r dewis o lyfrau Cymraeg arni. Mae'r athrawes yn croesawu ymddangosiad teitlau megis *Dyddiadur Dripsyn* a *Twm Clwyd* gan eu bod yn ddeniadol i'r rhai nad ydynt yn ddarllenwyr brwd. Fodd bynnag, nid oes digon o ddewis o lyfrau swmpus sy'n gafael mewn darllenwyr profiadol a mentrus a'r tueddiad wedyn yw iddynt ddarllen yn Saesneg – er enghraifft, cyfres *Hunger Games*, llyfrau Dan Brown ac ati. Mae llyfrau Anthony Horowitz yn cael eu darllen hefyd ond yn Saesneg yn hytrach nag yn Gymraeg. Ymhlith y teitlau poblogaidd Cymraeg yn yr ysgol hon, enwyd:

Plentyn y Stryd, Berlie Doherty (addas) 2009

Dyddiadur Dripsyn, Jeff Kinney (addas) 2011

Carys Blodyn, Lauren Child (addas) 2005

Cath Modryb Bela, Dee Shulman (addas) 2009 [o gyfres yr Hebog, i ddarllenwyr 'anfoddog']

Codi Calon Tad-cu, Diana Hendry (addas) 2009 [o gyfres yr Hebog, i ddarllenwyr 'anfoddog']

Henri Helynt, amrywiol, Francesca Simon/Tony Ross (addas) 2006-13

Enghraifft Pedwar:

- Ym marn yr athrawes ifanc a holwyd mae plant y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol wledig hon yn frwd am lyfrau. Mae amrywiaeth dda o lyfrau stori i'r plant dan 7, er nad oes cymaint ag a gyhoeddid ychydig flynyddoedd yn ôl, a byddai'r athrawes yn petruso tipyn cyn gwario arian prin ar rai o'r llyfrau sy'n ymddangos ar hyn o bryd. Mae prinder deunydd ffeithiol yn broblem. Yn achos dwy thema a fu'n ganolog i'r dysgu dros y misoedd diwethaf, ni ddaethpwyd o hyd i un llyfr a fyddai'n addas i'r plant ei drin ar eu pennau eu hunain, sef llyfr mewn iaith syml, gyda'r cynnwys o fewn cyrraedd y plant. Y ddwy thema dan sylw oedd: 'Y Corff' a 'Gwledydd'.
- Prinder arall a nodwyd oedd deunydd atodol megis teganau, pypedau a gwrthrychau eraill. Mae Bag Cadi a phyped Cadi ar gael ganddynt ond prin iawn yw'r

pethau fel pypedau bys, gemau, masgiau ac ati. Prynodd yr athrawes becyn Saesneg oedd yn cynnig llyfr, pypedau, gêm, tegan ac ati, ynghyd â cherdyn o syniadau i'r athro. Mae wedi gwneud defnydd helaeth o'r pecyn ac mae'n erfyn yn daer am bethau tebyg yn y Gymraeg. Treuliodd hanner tymor buddiol dros ben gyda 4 llyfr stori-a-llun Pentre Bach a gyhoeddwyd yn lled ddiweddar, ond nododd pa mor ddefnyddiol fyddai deunydd atodol wedi bod i'w chynlluniau.

- Bydd yr athrawes Cyfnod Sylfaen yn gwneud defnydd o straeon sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim oddi ar Hwb Cymru. Mae straeon ychwanegol Pentre Bach a 'Llyfrau Mawr' ymhlith y rhai y mae hi a'r plant wedi eu gwerthfawrogi. Mae medru dangos llyfr ar sgrin fawr yn ffordd ddramatig ac effeithiol o ddal sylw'r plant; mae'n fwy effeithiol na dal copi sengl o lyfr stori-a-llun. Mae hefyd ar gael heb wario cyllid.
- Mae plant 7-9 oed yn parhau i fod yn frwd am lyfrau darllen Cymraeg, gan fwynhau cyfresi doniol fel Henri Helynt, Tudr Budr a Lolipops. Oherwydd y cyfresi helaeth a gyhoeddwyd rai blynyddoedd yn ôl ar gyfer yr oedran hwn, mae tipyn o ffuglen yn yr ysgol. Mae mwy o lyfrau ffeithiol ar gael i'r oed hwn hefyd, er nad oes digon o hyd. Bydd y disgyblion yn defnyddio cyfrifiadur i ymchwilio ond nid oes iPads yn yr ysgol eto oherwydd diffyg cyllid.
- Mae darllenwyr brwd ym Mlwyddyn 5 a 6. Daw fan Llyfrgell y Sir i'r ysgol bob mis ond nid yw'r dewis o lyfrau Cymraeg yn helaeth ac mae llawer o'r plant yn dewis llyfr Saesneg. Darperir gwasanaeth i athrawon gan y Llyfrgell Sir hefyd – bocs o lyfrau ar thema arbennig – ond nododd yr athrawes fod y dewis yn aml yn denau iawn, a bod ganddi fwy o deitlau na'r hyn a ddarperir gan y llyfrgell yn y dosbarth eisoes neu yn ei storfa bersonol. Nododd ei bod yn prynu llyfrau Cymraeg ei hun er mwyn sicrhau digon o amrywiaeth pan fydd cyllid yn brin. Mae nifer o ddisgyblion yn mwynhau'r gyfres Hanes Atgas. Bydd plant o gefndir di-Gymraeg yn ffafrio llyfrau Saesneg erbyn iddynt gyrraedd Blynyddoedd 5 a 6, ond nid yw'r athrawes yn teimlo fod y rhagfarn yn erbyn llyfrau Cymraeg yn un dwfn ac mae modd goresgyn y duedd gydag ychydig o frwdfrydedd: 'Agor eu llygaid nhw i'r llyfrau yw'r gamp.' Dywedodd ei bod yn gallu bod yn anodd dod o hyd i lyfrau newydd 'heriol' ar gyfer Bl. 5 a 6, fodd bynnag.

Maent yn hoff o hiwmor ar y naill law (Dyddiadur Dripsyn yn boblogaidd, yn ogystal â'r teitlau Saesneg gwreiddiol) ond hefyd y dwys a'r dirgel.

- Dosberthir taflen y Clwb Llyfrau bob tro a cheir rhai archebion – tua 6 allan o 38 plentyn yn prynu llyfr. Bu'r ysgol yn cymryd rhan yn y Cwis Llyfrau yn y gorffennol ond nid yn y blynyddoedd diwethaf oherwydd pwysau gwaith. Mae'r pwyslais ar brofion a 'chodi safonau' yn dipyn o gonsyrn i'r athrawon. Mae'r ysgol yn sicrhau fod pob plentyn yn darllen bob dydd, a gofynnir i rieni wrando ar eu plant yn darllen bob yn ail ddydd. Ym marn yr athrawes nid yw'r parch at lyfrau a diddordeb mewn darllen yn bod mewn llawer o gartrefi. O holi'r plant lleiaf, ychydig ohonynt sy'n cael stori cyn mynd i'r gwely.
- Nodwyd nad yw'r cysyniad o gyhoeddiad 'newydd' o bwys yn y Cyfnod Sylfaen. Gan fod pob bocs llyfrau ar thema newydd y tymor yn 'newydd' i'r plant, mae'n bwysicach fod yr athro yn medru cael gafael ar bopeth sy'n berthnasol.